

Llyfr 1 o 3

# Beth?

*Y Broses Cyd-gynllunio*

Y Prosiect Cyd-gynllunio

## Adroddiad Terfynol

Tachwedd 2021

# **Rhagair:** Beth yw Adfywio Cymru?

Mae Adfywio Cymru, sefydlwyd yn 2012, yn rhaglen dan arweiniad ymarferwyr sydd yn cynorthwyo cymunedau yng Nghymru i leihau eu hôl troed carbon, addasu i effaith newid hinsawdd a byw yn gynaliadwy.

Mae'r rhaglen yn gweithio ar y ddealltwriaeth y bydd Grwpiau Cymunedol yn cysylltu ac yn dysgu'n well gan rai eraill sydd wedi cael yr un profiadau eisoes ac mae'r genhadaeth yma yn cael ei chyflawni gyda phroses cyfoed-i-gyfoed unigryw.

**Tasg y cydlynwyr lleol, o sefydliadau dielw ledled Cymru, yw ymestyn allan i'r grwpiau fydda'n gallu gweithredu ar newid hinsawdd o bosib (pa unai ydynt yn ymwybodol o hyn neu beidio).**

**Os oes gan y grŵp digon o ddiddordeb bydd y Cydlynydd Lleol yn gweithio gyda nhw i greu syniadau a dyheadau mwy clir ac i adnabod sut y gallant weithredu ar newid hinsawdd. Yn dilyn y broses yma mae'r grŵp yn creu cynllun gweithredu.**

**Yna mae'r Cydlynydd Lleol yn cyflwyno'r grŵp at Fentor addas am gefnogaeth – unigolion neu grwpiau eraill sydd eisoes wedi gweithredu'n debyg. Maent yn cael cymorth i gymryd y camau cyntaf yn y cynllun gweithredu.**

**Yn dilyn y mentora cyfoed mae'r grŵp yn symud ymlaen i weithio ar weddill y cynllun gweithredu yn amser eu hunain, ochr yn ochr â'u gweithgareddau bob dydd.**

**Mae'r Cydlynydd Lleol yn cadw cysylltiad, gan wahodd y grŵp i ymuno â chyfleoedd rhwydweithio perthnasol – hyfforddiant, rhannu sgiliau, cynadleddau a gweithdai.**

**Weithiau bydd grwpiau yn symud ymlaen i ddod yn Fentoriaid eu hunain, i rannu eu profiad a'u gwybodaeth gyda grwpiau eraill ac i adeiladau etifeddiaeth rhwydwaith cefnogol llwyddiannus ledled Cymru.**

**Weithiau bydd grwpiau yn gofyn am gefnogaeth gyfoed am yr eildro i gymryd y camau nesaf ac i gryfhau'r gweithredu ar newid hinsawdd.**

Sefydlwyd Adfywio Cymru gan grŵp o sefydliadau sydd â hanes hir o ddatblygu cymunedol a gweithredu ar newid hinsawdd. Mae'n cael ei redeg gan dîm bach o fewn Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTA Cymru). Ariannir gan y rhaglen Camau Cynaliadwy a ddarperir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae cannoedd o gymunedau ledled Cymru wedi derbyn cymorth i weithredu hyd yn hyn.

# Cyflwyniad

Yn Llyfr 1 yr adroddiad yma, gofynnir 'beth', gan fanylu'r broses cyd-gynllunio: beth oedd e', o ble y daeth, a sut defnyddiwyd hyn i archwilio'r cwestiynau a syniadau oedd yn ganolog i'n prosiect. Yn Llyfr 2 yr adroddiad yma rydym yn gofyn 'felly, beth?', ac yn adlewyrchu ar yr effaith mae rhaglen Adfywio Cymru wedi ei gael hyd yn hyn: beth mae'r effaith yma yn ei feddwl mewn gwirionedd, pam bod hyn yn bwysig, a beth mae hyn yn ei ddweud am y dyfodol?

Ar un llaw roedd y Prosiect Cyd-gynllunio yn syml iawn. Roedd yn broses tri cham o feddwl am y gorffennol, cyn rhoi cynnig ar ychydig o bethau newydd, ac yna tynnu popeth at ei gilydd a meddwl am y dyfodol.

Ond ar y llaw arall, roedd y prosiect yn fanwl ac yn gymhleth. Roedd elfennau o ymchwil, adlewyrchu, gwerthuso, dysgu gweithredol ac arbrofi. Roedd yn tynnu'r rhai oedd yn adnabod Adfywio Cymru a'r rhai oedd ddim yn gyfarwydd â nhw at ei gilydd, ac roedd y gwaith yn cychwyn heb wybod, na heb bosib gwybod, allbynnau'r prosiect. Thesis canolog y Prosiect Cynllunio yn y pen draw oedd y gallem baratoi yn well ar gyfer y dyfodol wrth rannu cyfrifoldebau a gweithio â'n gilydd, yn hytrach nag aros ar wahân a gweithio ar ben ein hunain.

Er bod cynllun, nid oedd sicrwydd. Diffiniwyd camau eang o'r gwaith o'r cychwyn cyntaf, ond nid gweithrediadau penodol. Roedd pob penderfyniad cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd, gyda'r rhai sydd yn cael eu hadnabod fel rhanddeiliaid yng nghenhadaeth Adfywio Cymru, gyda phob rhan o'r prosiect yn cael ei lywio gan yr hyn oedd yn ei ddilyn. O ganlyniad i hyn, roedd rhaid i'r prosiect fod yn hyblyg, ymatebol, gallu addasu i heriau a manteisio ar gyfleodd. Gwahoddwyd pawb i gyfrannu, er nad oedd rheidrwydd ar neb i wneud hynny. Camau pawb oedd y camau cymerwyd, a chasgliadau pawb yw'r casgliadau a wnaed yma.

Yn y tudalennau canlynol, rydym yn manylu:

- Ystyr cyd-gynllunio.
- Tarddiad y prosiect cyd-gynllunio yma.
- Prif allbynnau a gyflawnwyd trwy'r prosiect cyd-gynllunio
- Elfennau craidd y tri cham o drosglwyddo prosiect.

Yn Llyfr 2 yr Adroddiad Terfynol yma, manylir yr hyn datgelwyd trwy'r broses cyd-gynllunio yma yn

*Arweiniwyd y Prosiect Cyd-gynllunio, a chynhyrchwyd yr Adroddiad Terfynol, gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Fel prosiect cyfranogol, datblygol, roedd dysgu yn cael ei gynhyrchu a'i wreiddio wrth drosglwyddo'r prosiect, yn cael ei gyfleu trwy ystod amrywiol o allbynnau (mae archif o hyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol yma). Nid yw'r Adroddiad Terfynol yma yn disodli'r hyn dysgwyd mewn mannau eraill, ond mae'n rhoi disgrifiad cyffredinol o sut y daeth holl elfennau amrywiol y prosiect at ei gilydd, a'r casgliadau 'cenhadaeth eang' gellir eu llunio o ganlyn hynny.*

# Beth yw Cyd-gynllunio?



*“Mae cyd-gynllunio yn broses a arweinir gan gynllunio sydd yn defnyddio dulliau cyfranogol creadigol. Nid oes un dull sydd yn addas i bopeth a phawb, nac cyfres o restrau gwirio i’w dilyn. Ond mae yna gyfres o batrymau ac egwyddorion gellir eu defnyddio mewn sawl ffordd gyda phobl wahanol. Mae cyd-gynllunwyr yn gwneud penderfyniadau, nid awgrymiadau’n unig.”*

Mae cyd-gynllunio yn edrych ar wneud penderfyniadau cynllunio, sydd yn ffurfio rhan o unrhyw wasanaeth neu brosiect, gydag yn hytrach nag ar ran, y bobl bydd y penderfyniadau yma yn effeithio arnynt yn y pen draw. Mae’n rhan o deulu ehangach o ‘ddulliau cyd-gynhyrchu’, ble mae grym a chyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng y rhai sydd yn darparu, a’r rhai sydd yn derbyn gwasanaeth, gyda pherthynas cyfartal, dwyochrog a gofalgar. Mae pum gwerth craidd i hyn:

1. Adeiladu ar gryfderau pawb.
2. Datblygu rhwydweithiau ar draws seilos.
3. Canolbwyntio ar fywydau pobl, nid systemau.
4. Gweithio ar sail perthnasau gwych.
5. Galluogi pobl i wneud newidiadau.

Yng nghyd-destun deddfwriaethol Cymru, gellir ystyried cyd-gynhyrchu (a chyd-gynllunio drwy ddirprwy) yn gyfystyr â ‘egwyddor cyfranogiad’ Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Daw’r gwerth mwyaf o gyd-gynllunio (a chyd-gynhyrchu yn ehangach) pan gaiff ei gymhwyso i heriau cymhleth a phroblemau drygionus. Hynny yw, i’r problemau hynny lle nad oes datrysiadau amlwg (neu hysbys) ar y cychwyn, lle nad oes atebion ‘cywir’ neu ‘anghywir’ diffiniol, a pan fydd pob cam gweithredu yn newid paramedrau’r broblem, a’r hyn sydd yn digwydd nesaf. Ar y cychwyn, nid yw’n bosib deall yn union sut bydd y broses cyd-gynllunio yn datblygu, ac mae arloesiad, dysgu a chofleidio canlyniadau sydd yn dod i’r amlwg yn hanfodol.

Yn ychwanegol i hyn, mae cyd-gynllunio yn grymuso, yn democrateiddio, yn cryfhau perthnasoedd ac yn adeiladu cymunedau. Mae'n rhoi llais i'r rhai sydd heb gael y cyfle cynt. Felly nid yw’r broses cyd-gynllunio yn fodd i gyrraedd nod yn unig, ond dylid ei barchu fel nod ynddo’i hun.

# Beth oedd y Prosiect Cyd-gynllunio?

Ymestynnodd Adfywio Cymru wahoddiad ym mis Awst 2020 am gynigion i ymateb i'r brîff am 'broses adlewyrchu, cysylltu, cynllunio'.

Roedd y brîff yn gofyn am ymatebion gan sefydliadau partner fydda'n gallu gweithio gydag Adfywio Cymru dros gyfnod o 12 mis, 'i helpu'r amrywiaeth eang o randdeiliaid a chynghreiriaid ar draws y gymuned Adfywio Cymru, i ddeall y sefyllfa nawr, ac i gynllunio ar gyfer y degawd sydd i ddod', wrth:

- **Adlewyrchu**: ar "beth sydd yn newid ar lawr gwlad yn y cymunedau ble mae'r rhaglen wedi cefnogi grwpiau?"
- **Cysylltu:** gyda sgyrsiau ar draws rhwydweithiau estynedig "am yr argyfwng hinsawdd a natur, am wydnwch a bregusrwydd eu cymunedau, y dyfodol delfrydol, yr asedau sydd ganddynt, yr heriau sydd yn eu hwynebu a'r hyn gall fod yn bosib cyflawni gyda'i gilydd."
- **Cynllunio**: i edrych y tu hwnt i ddegawd diwethaf rhaglen Adfywio Cymru, gan ystyried "ffyrdd newydd o gefnogi gweithredu cymunedol ar gyfer dyfodol cynaliadwy o 2021 ymlaen."___

Fel ymateb i'r brîff yma, aeth Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru ati i gynnig 'Y Prosiect Cyd-gynllunio'" ymarfer cyd-gynllunio estynedig, yn dod â gwerthoedd cyd-gynhyrchu i rym, ac yn cynnwys:

1. 'Rhwydwaith Adfywio Cymru' (o Staff, Mentoriaid a Chydlynwyr) sydd wedi bod yn gyfrifol am gyflwyno rhaglen Adfywio Cymru dros y degawd diwethaf.
2. Y Grwpiau Cymunedol sydd yn ymwybodol o Adfywio Cymru, ac sydd wedi elwa o'i gefnogaeth yn y gorffennol.
3. Y grwpiau a'r sefydliadau sydd ddim yn ymwybodol o Adfywio Cymru, ond sydd â'r potensial i elwa o barhad cenhadaeth Adfywio Cymru yn y dyfodol.

Cychwynnodd y prosiect ym mis Medi 2020, a daeth i ben ym mis Tachwedd 2021. Darparwyd cyfanswm o 48 diwrnod o gymorth ar draws tri cham eang o'r prosiect, sef 'Pwyso a Mesur', 'Ymestyn Allan' a 'Cynllunio at y Dyfodol', sydd yn cael eu manylu yn y llyfr yma. Arweiniwyd y prosiect gan ymgynghorwyr Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru Suze Dempsey-Sawin, Jenny Mushiringani Monjero a Mike Corcoran.

**Tîm y Prosiect Cyd-gynllunio**



Suze Dempsey-Sawin



Jenny Mushiringani Monjero



Mike Corcoran

# Allbynnau Allweddol y Prosiect

Mae tri cham o drosglwyddo'r Prosiect Cyd-gynllunio. Mae amrywiaeth o weithgareddau ym mhob cam, yn ogystal ag allbynnau prosiect eu hunain. Yn ganolog i'r dull yma oedd pwyslais ar ddysgu gweithredol, ac addasu i'r heriau a'r cyfleoedd mewn amser real. Tra bod yr adroddiad yma yn allbwn terfynol y prosiect, nid yw'n cymryd lle'r rhai a ddaeth cynt: mae gan bob gweithgaredd a phob allbwn werth cyfartal a chynhenid.

| DYDDIAD | CAM | GWEITHGAREDD ALLWEDDOL | ALLBWN |
|---|---|---|---|
| MEDI20 | CAM 1: Pwyso a mesur | Adolygiad Llenyddiaeth | 1x Gofod Prosiect Rhithiol |
| HYD 20 | | Cyfweliadau 1 i 1 | 9x Crynodeb Cyfweliad |
| TACH 20 | | Gweithdy Dewis Stori | 2x Recordiad Digwyddiad |
| RHAG 20 | | Cymuned Ymholi | |
| ION 21 | CAM 2: Ymestyn Allan | Dadansoddi ac Adlewyrchu | 1x Adroddiad Cynnydd |
| CHWEF 21 | | | |
| MAW 21 | | Sesiynau Cynllunio Digwyddiadau | 5x Brîff Digwyddiad |
| EBR 21 | | Paratoi Digwyddiad | |
| MAI 21 | | Creu Podlediad / Cyflwyno Digwydd-iad | 5x Podlediad |
| MEH 21 | | | 5x Digwyddiad |
| GORFF 21 | | | 6x Blog |
| AWST 21 | CAM 3: Cynllunio at y Dyfodol | Sesiynau Gwneud Synnwyr | 6x Crynodeb Sesiwn |
| MEDI 21 | | Cyfarfod Tîm | 1x Slide Deck |
| HYD 21 | | Paratoi Adroddiad | 1x Adroddiad Terfynol |
| TACH 21 | | | |

Dros gyfnod y prosiect, llwyddwyd cynnwys::

| | |
|---|---|
| 40+ SEFYDLIAD | 150+ UNIGOLYN |

# Cam 1: Pwyso a Mesur


:

Roedd Cam 1 y prosiect Cyd-gynllunio yn canolbwyntio ar bwyso a mesur, gan atgyfnerthu dealltwriaeth o’r hyn a gyflawnwyd gan Adfywio Cymru hyd yma, ac adeiladu llwyfan, a strategaeth, i bawb a ddilynodd.

Yng Ngham 1 cafwyd:

- 3x Cyfarfod Cyflwyno: Cyfarfodydd cyflwyno gyda Thîm Staff Canolog Adfywio Cymru i sefydlu perthnasoedd, ac i osod systemau rheoli ac adrodd.
- 1x Adolygiad llenyddiaeth: Adolygiad o werthusiadau, monitro byw a data gwerthuso blaenorol Adfywio Cymru, yn ogystal ag astudiaethau ehangach sydd yn cyd-fynd â chenhadaeth Adfywio Cymru fu’n helpu i osod effaith y rhaglen yn ei chyd-destun.
- 9x Cyfweliad 1 i 1: Cynhaliwyd cyfweliadau gyda sampl cynrychioliadol o naw aelod o Rwydwaith Adfywio Cymru, gan wahodd pobl i rannu straeon am y newidiadau a brofwyd nhw, eu cymunedau a Chymru yn deillio o fod yn rhan o raglen Adfywio Cymru.
- 1x Gweithdy dewis stori: Gan gasglu straeon o’r cyfweliadau 1 i 1 a’u defnyddio i ysgogi, cynhaliwyd gweithdy dewis stori gyda Thîm Canolog Adfywio Cymru yn adlewyrchu ar y straeon ‘mwyaf arwyddocaol’ a pham.
- 1x Cymuned Ymholi: Yn cael ei lywio gan y gweithdy dewis stori, daeth 'Cymuned Ymholi' â 12 aelod o Rwydwaith Adfywio Cymru ynghyd, i adlewyrchu ar y straeon 'mwyaf arwyddocaol' o newid o orffennol Adfywio Cymru, ac i gynllunio a thrafod cwestiynau archwiliadol sydd yn canolbwyntio ar y dyfodol a chynhyrchu argymhellion ar gyfer gweithredu. Roedd y Gymuned Ymholi yn nodi’r trawsnewidiad o ‘Phwyso a Mesur’ ac adlewyrchu ar y gorffennol, i ‘Ymestyn Allan’ a pharatoi at y dyfodol.

I gefnogi’r gwaith o gyflawni’r Prosiect Cyd-gynllunio, sefydlwyd gofod ar-lein pwrpasol ar safle Basecamp Adfywio Cymru yn ystod Cam 1, gan hwyluso’r cyfathrebu gyda Mentoriaid, cydlynwyr a rhanddeiliaid ehangach y rhaglen, a chrëwyd wal ludiog ddigidol gan ddefnyddio Padlet (gweler y ddelwedd ar y dde), yn caniatáu i unrhyw randdeiliad prosiect rannu adborth, syniadau a monitro cynnydd.



# Cam 2: Ymestyn Allan

Roedd Cam 2 y prosiect Cyd-gynllunio yn ymwneud ag ymestyn allan, yn newid sylw tuag at y dyfodol a dysgu wrth wneud: wrth gael sgyrsiau newydd, gyda phobl newydd, mewn ffyrdd newydd. Roedd hyn yn ymwneud â:

- **Dadansoddi ac adlewyrchu:** Cyfnod o ddadansoddi ac adlewyrchu ar y data a gasglwyd, a'r hyn a ddysgwyd, yng Ngham 1, gan orffen gydag argymhellion y Gymuned Ymholi yn cael eu gosod fel pum cwestiwn i ysgogi cynllunio a thrafodaeth.

- **5x Sesiwn cynllunio digwyddiad**: Archwiliwyd pob cwestiwn a ddiffiniwyd trwy ddadansoddi ac adlewyrchu mewn 'sesiwn cynllunio digwyddiad', lle gwahoddwyd Cydlynwyr, Mentoriaid a Grwpiau Cymunedol Adfywio Cymru a oedd wedi derbyn cymorth eisoes. Roedd cyfanswm o 33 unigolyn wedi cymryd rhan yn y pum sesiwn, gan droi pob cwestiwn yn frîff ar gyfer digwyddiad peilot. Fel set lawn roedd y briffiau yn:
    - ✓ Darparu amrywiaeth (pwy, beth, pryd, ble a pham) gan optimeiddio'r dysgu ar draws y digwyddiadau.
    - ✓ Sicrhau gwerth cynhenid i bob digwyddiad – heb ragdybio am unrhyw weithgaredd Adfywio Cymru a allai ddilyn neu beidio yn y dyfodol.
    - ✓ Cynnig digwyddiad o faint ac uchelgais y gellir ei gyflawni i safon uchel gyda'r amser a'r adnoddau sydd ar gael.

- **Paratoi digwyddiad**: Yn dilyn pob brîff digwyddiad a gafodd ei greu ar y cyd, gwnaed paratoadau ar gyfer digwyddiadau, dan arweiniad Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, gyda Chydlynwyr a Mentoriaid Adfywio Cymru yn rhoi cymorth gwirfoddol.

- **5x Digwyddiad**: Cynhaliwyd digwyddiadau ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021. Roedd dros 100 o unigolion a thros 40 o sefydliadau a Grwpiau Cymunedol wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau, o bob rhan o Gymru a thu hwnt, gan gynnwys sawl oedd heb gysylltu ag Adfywio Cymru o'r blaen. (Manylion llawn y digwyddiad ar Dudalen 8).

- **5x Podlediad:** Ochr yn ochr â'r digwyddiadau, cynhyrchwyd pump podlediad gan Dîm Staff Canolog Adfywio Cymru, gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Roedd y podlediadau yn cefnogi agenda Cam 2 wrth annog sgwrs newydd (am themâu na thrafodwyd o'r blaen) gyda phobl newydd (gyda chyfranwyr gwadd o bob rhan o'r byd) mewn ffyrdd newydd (gan ddefnyddio cyfrwng newydd i'r rhaglen). Roedd pob podlediad yn cael ei chyflwyno gan Gydlynydd Adfywio Cymru wahanol. (Dadansoddiad llawn o'r Podlediadau ar Dudalen 9).

Parhawyd i ddefnyddio tudalennau Basecamp a Padlet pwrpasol wrth gyflwyno Cam 2, gydag adroddiad cynnydd yn dogfennu cynnydd a dysgu hyd yma ar gyfer Grŵp Llywio Adfywio Cymru.

# Cam 2: Ymestyn Allan

Dyma ddigwyddiadau Cam 2:

**DIGWYDDIAD 1: CYMRYD DROSODD:** Roedd Digwyddiad 1 yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut mae cynnwys y rhai sydd byth yn siarad am newid hinsawdd yn y sgwrs?' Felly penderfynwyd ar ddigwyddiad Cymryd Drosodd, gyda Mentoriaid a Chydlynwyr Adfywio Cymru yn ymuno yng nghyfarfodydd rhwydwaith sefydledig sydd ddim yn draddodiadol yn mynychu hyfforddiant a digwyddiadau yn ymwneud â'r amgylchedd. Roedd y grŵp dan sylw yn grŵp o weithwyr llawrydd a pherchnogion busnesau bach o ledled y DU, gyda'r digwyddiad yn cael ei gynnal gan yr arbenigwyr cydweithio TownSq. Cynhaliwyd y digwyddiad yn ystod wythnos gyntaf Mehefin i gyd-fynd â Diwrnod Amgylchedd y Byd. Yn bresennol roedd 12 o unigolion o ystod amrywiol o sectorau.

**DIGWYDDIAD 2: GWIB FACHU:** Roedd Digwyddiad 2 ( 'Pawb â'i gilydd yn hyn') yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut gall cyfarfodydd anffurfiol dan arweiniad y gymuned wneud cyfraniad positif i'n heriau amgylcheddol?' Roedd gwahoddiad agored i'r digwyddiad awr o hyd yma, i'r rhai oedd wedi derbyn cefnogaeth Adfywio Cymru yn flaenorol, ynghyd â gwesteion gwadd o bedwar ban byd. Roedd ar ffurf 'gwib fachu' gyda'r mynychwyr yn cael eu gosod mewn grŵp ar hap ar gyfer 3 rownd o drafodaeth anffurfiol. Roedd tudalen Padlet bwrpasol yn caniatáu i gyfranogwyr rannu manylion cyswllt a pharhau'r sgwrs ar ôl y digwyddiad. Mynychodd 15 o unigolion, o 15 sefydliad gwahanol.

**DIGWYDDIAD 3: SÊL GWERTHU A PHRYNU:** Roedd Digwyddiad 3 ( 'Rhoi Ein Datganiadau Argyfwng Hinsawdd ar Waith') yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut gall yr 'Argyfwng Hinsawdd' droi'n gweithredu ystyrlon ar lefel bach lleol?'. Roedd y digwyddiad ar ffurf 'cylch dwyochredd' gyda thrafodaeth strwythuredig yn caniatáu i bob cyfranogwr rannu'r pethau yr oeddent yn chwilio am gefnogaeth y grŵp â nhw, a'r cymorth y gallent ei gynnig yn ôl i'r grŵp. Rhoddwyd gwahoddiadau i Gynghorau Tref a Chymuned ledled y DU a oedd wedi gwneud Datganiadau Argyfwng Hinsawdd. Mynychodd cynrychiolwyr o 7 cyngor Tref a Phlwyf, o ledled Cymru a Lloegr.

**DIGWYDDIAD 4: YR HAC:** Roedd Digwyddiad 4 yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut gall Grwpiau Cymunedol gael mynediad mwyaf effeithiol at y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i weithredu?'. Gwnaed hyn ar ffurf 'hac' lle daeth grŵp o bobl at ei gilydd i greu cyfres o adnoddau o'r newydd dros gyfnod diwrnod. Wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â Phobl yn Gyntaf, bu Mentoriaid Adfywio Cymru yn gweithio ochr yn ochr ag artistiaid a 12 o unigolion gydag anableddau dysgu i greu cyfres o bosteri a ffilmiau byr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol: mewn ffordd a oedd yn hygyrch i bawb.




**DIGWYDDIAD 5: Y DATHLIAD:** Roedd Digwyddiad 5 yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut mae ysbrydoli pobl iau i gymryd rhan mewn gweithredu amgylcheddol ar lawr gwlad, dan arweiniad y gymuned?' Ymunodd Adfywio Cymru â thîm a oedd mewn bodolaeth (dan arweiniad GwE, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Chyfoeth Naturiol Cymru) a oedd eisoes yn cynllunio digwyddiad gydag agenda cyffredin. Mae 'TEDxGwE: Cyfri'r Dyddiau Cyn COP26', a gynhelir ym mis Tachwedd 2021 yn ddigwyddiad TEDx swyddogol ar gyfer siaradwyr ifanc o Ogledd Cymru. Roedd dros 100 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y digwyddiad, gyda dros 160 o athrawon, llunwyr polisi a dylanwadwyr eraill yn bresennol.

O ganlyniad Covid-19, roedd rhaid cynnal pob digwyddiad, heblaw Digwyddiad 4, ar-lein yn gyfan gwbl. (Disgrifiad manwl o bob digwyddiad yn Llyfr 3).

# Cam 2: Ymestyn Allan

Roedd pob pennod o gyfres podlediad Cam 2 ‘Renew Wales in Conversation’ yn cynnwys un aelod o Rwydwaith Adfywio Cymru, un cynrychiolydd o grŵp sydd wedi derbyn cefnogaeth Adfywio Cymru’n flaenorol, ac unigolyn sydd yn hollol newydd i’r rhaglen.

**1. BIOAMRYWIAETH A GOFODAU GWYRDD**

Roedd pennod 1 yn trafod bioamrywiaeth a gofodau gwyrdd cyhoeddus. Gyda Jeremy Wadia o Eco Dewi ac Ian Thomas o Croeso i’n Coedwig. Cyflwynir gan Jasmine Dale, Cydlynydd Adfywio Cymru o Transition Bro Gwaun.




**2. TRAFNIDIAETH**

Roedd pennod 2 yn trafod datrysiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Gydag Adam Kennerly o Agor Drenewydd a Sandra Phillips, sylfaenydd MovMi. Cyflwynir gan Andrew Burns, Cydlynydd Adfywio Cymru o Hyfforddiant Beicio Cymru.




**3. GWASTRAFF A’R ECONOMI GYLCHOL**

Roedd pennod 3 yn trafod rheoli gwastraff a’r economi gylchol. Gyda Chloe Masefield o Natural Weigh a Cerys Jones o Caffi Trwsio Cymru. Cyflwynir gan Margaret Minhinnick, Cydlynydd Adfywio Cymru o Cymru Cynaliadwy.




**4. CELFYDDYDAU CREADIGOL A NEWID HINSAWDD**

Roedd pennod 4 yn trafod y celfyddydau creadigol a newid hinsawdd. Gyda Salome Wagaine o Julia’s Bicycle/Season for Change a Geinor Styles o Theatr na nÓg. Cyflwynir gan Deb Winter, Cydlynydd Adfywio Cymru o Transition Bro Gwaun.




**5. CREU LLEOEDD**

Roedd pennod 5 ‘Creu Lleoedd’ yn bodlediad iaith Gymraeg, yn ymateb i’r angen a nodwyd am ddiffyg trafodaeth newid hinsawdd gyhoeddus sydd yn digwydd yn y Gymraeg. Gyda David Davies o Raglen Cymunedau’n Creu Cartrefi a Gwyn Roberts o Galeri Caernarfon. Cyflwynir gan Craig ab Iago, Cydlynydd Adfywio Cymru.



# Cam 3: Cynllunio at y Dyfodol

Yng Ngham 3 y prosiect, rhoddwyd sylw i'r ffordd oedd o flaen. Gan ystyried yr hyn dysgwyd yn y cynllunio, paratoi a chynnal digwyddiadau a phodlediadau fel sbardun, cafwyd cyfnod strwythuredig o adlewyrchu i feddwl am y potensial ar gyfer cysylltu gyda heriau a chyfleoedd newydd, cynulleidfaoedd newydd a ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol.

Roedd Cam 3 yn ymwneud yn bennaf â:

- **6x Sesiwn Gwneud Synnwyr:** Bob dydd Gwener ym mis Awst a dechrau mis Medi 2021, cynhaliwyd 'sesiynau gwneud synnwyr' dros amser cinio. Roedd pob sesiwn yn canolbwyntio ar ddigwyddiad gwahanol yng Ngham 2, gyda sesiwn ychwanegol yn canolbwyntio ar gyfres podlediad Adfywio Cymru. Gan ddefnyddio blog byr yn adlewyrchu ac yn crynhoi'r digwyddiad fel sbardun, defnyddiodd y sesiynau ddull adlewyrchol 'Pwy? Felly Beth? Beth Nawr?' i sefydlu arwyddocâd pob digwyddiad wrth feddwl am y dyfodol. Hyrwyddwyd y sesiynau i Rwydwaith Adfywio Cymru drwy Basecamp. Mynychodd cyfanswm o saith unigolyn unigryw'r sesiynau, gyda 4 unigolyn ym mhob sesiwn ar gyfartaledd.

- **1x Cyfarfod Tîm**: Daeth 19 o Gydlynwyr Adfywio Cymru ac Aelodau'r Grŵp Llywio ynghyd a tri aelod o'r Tîm Staff Canolog at ei gilydd ar 23 Medi 2021 ar gyfer y 'Cyfarfod Tîm'. Roedd dwy ran i'r digwyddiad.:

    1. Yn rhan 1 roedd y grŵp yn adlewyrchu ar ganlyniadau'r proses Cyd-gynllunio a'r newidiadau ychwanegol hoffai'r grŵp eu gweld yn digwydd, os byddem yn ail ymgynnull 10 mlynedd yn y dyfodol.
    2. Yn rhan 2 roedd y grŵp yn adlewyrchu ar y camau nesaf a gallai arwain at y weledigaeth yma, ar yr ystyr o 'arloesiad' a gweithio mewn grwpiau bach, yn cynllunio 'prosiectau arloesol' gallai eu cyflawni yn y misoedd i ddod.

- **Paratoi adroddiad:** Gan ystyried yr holl weithgareddau cyflawnwyd, yr holl ddata casglwyd, a'r holl ddysgu sydd wedi'i gynhyrchu gyda'r Prosiect Cyd-gynllunio llawn, paratowyd deunyddiau i gynhyrchu'r Adroddiad Terfynol yma, a'r atodiadau cysylltiedig. Fel canlyniad olaf yr ymarfer cyd-gynllunio, nid yw'r adroddiad yma yn rhoi dadansoddiad ac asesiad annibynnol sydd ar wahân i'r rhaglen, ond yn rhoi gwir gofnod llinell uchel o'r cyd-ddadansoddi a'r casgliadau ar y cyd a ddaeth o'r Rhwydwaith Adfywio Cymru, rhanddeiliaid ehangach y rhaglen fu'n cymryd rhan yn y prosiect.

Daeth Cam 3 i ben ym mis Awst 2021, gyda'r adroddiad yma yn cael ei chwblhau fis Tachwedd 2021.

# Beth ddywedodd Pobl

Mae'r canlynol yn ddyfyniadau gan rhai o'r bobl fu'n cymryd rhan yn y Prosiect Cyd-gynllunio (neu elfen ohono).

**Ymddangosai yn yr adborth ffurfiol [y tu allan i'r Prosiect Cyd-gynllunio] fel nad oedd y grŵp wedi cyflawni dim. Gall hyn fod yn broblem gyda'r ffurflen, a'r cyfyngiadau yn yr hyn y gallai ddweud am y cyd-destun.**

**Hwylusiad gwych, fel sydd yn wir bob tro - Diolch!**

**[Rydym] wedi cyflawni cymaint mewn 12 mis!**

**Rwyf wedi mwynhau heddiw yn fawr iawn, a'r ffordd rydych chi wedi cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd rymusol.**

**Sut gallem gysylltu mwy fel cymuned... llawer o syniadau gwych heddiw a dolenni i wefannau, ond bydd y cyffro yma yn siŵr o bylu os nad oes ryw fath o atebolrwydd neu weithredu ychwanegol.**

**Mae asesu effaith y dull yma wedi [yn draddodiadol] bod yn heriol – nid yw gwerthusiadau wedi magu dealltwriaeth o effaith hirdymor dull Adfywio Cymru.**

**Mae cael y mathau yma o sgyrsiau yn syniad gwych a gobeithio y bydd hyn yn parhau! Mae'n helpu i fagu hyder yn yr hyn rydym yn ei wneud ac mae rhannu yn creu mwy o syniadau a gweithredu.**

**Ni fyddem yn clywed y math yma o straeon fel arfer.**

**Cyfarfod pobl a gweithio gyda'n gilydd er budd y gymuned [oedd y peth mwyaf gwerthfawr am y digwyddiad]**

**Rwy'n gobeithio y gall [digwyddiadau fel hyn] ddigwydd yn amlach.**

**Wedi'i baratoi ar gyfer Adfywio Cymru gan Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru**

Rhwydwaith
Cydgynhyrchu
Cymru

Co-production
Network
for Wales



Llyfr 2 o 3

# Felly Beth?

*Effaith Adfywio Cymru*

Y Prosiect Cyd-gynllunio

Adroddiad Terfynol

Tachwedd 2021

# Cyflwyniad

Yn Llyfr 2 yr adroddiad yma rydym yn gofyn ‘felly, beth?’, ac yn adlewyrchu ar yr effaith mae rhaglen Adfywio Cymru wedi ei gael hyd yn hyn: beth mae’r effaith yma yn ei feddwl mewn gwirionedd, pam bod hyn yn bwysig, a beth mae hyn yn ei ddweud am y dyfodol?

Nid yw asesu effaith y rhaglen Adfywio Cymru yn fater dibwys. Mae’r gwaith yn cynnwys buddsoddiad sylfaenol, nid mewn adeiladu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn unig, ond mewn adeiladu rhwydweithiau, perthnasoedd a gwydnwch cymunedol. Felly, efallai na fydd posib gweld gwir effaith elaidd y gwaith tan hir wedi darparu’r gwasanaeth, a thu hwnt i’r cyfnod prosesau monitro ac adrodd safonol.

Mae gan Adfywio Cymru Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sydd wedi’u diffinio’n glir. Mae’r cynnydd yn cael ei fesur a’i adrodd yn rheolaidd yn ôl y targedau cytûn. Maent wedi bod yn destun gwerthusiadau annibynnol drwy’r cyfnod cyflawni, y diweddaraf ym mis Mehefin 2020.

Nid oedd ymgais i ddyblygu nac herio’r canfyddiadau yma yn ystod y Prosiect Cyd-gynllunio. Yn hytrach, defnyddiwyd fel ein pwynt cychwyn, gyda’r bwriad o adeiladu arnynt, gosod yn eu cyd-destun a dysgu ohonynt. Gan ddefnyddio adlewyrchiad a chyd-ddadansoddi, ceisiwyd deall yr ‘anhysbys anhysbys’ o effaith Adfywio Cymru, y rhyngberthynas rhwng y newidiadau amrywiol a welwyd a’u profwyd, a chyd-ddiffinio’r ‘cwestiynau diateb’ i fod yn bwnc archwilio ac arbrofi wrth fwrw ymlaen.

Dros y tudalennau nesaf, rydym yn manylu ar:

- Allbynnau allweddol cyflawnir gan y rhaglen.
- Canlyniadau allweddol sydd yn gysylltiedig â'r allbynnau yma.
- Hanesion a phrofiadau Rhwydwaith Adfywio Cymru.
- Newidiadau mwyaf arwyddocaol a ddaw o’r rhaglen
- Cwestiynau arwyddocaol sydd yn codi o’r newidiadau yma.

Yn Llyfr 1 yr Adroddiad Terfynol yma, manylir y broses ‘Cyd-gynllunio’ sydd yn cael ei ddefnyddio i asesu’r effaith a’r newidiadau yma. Yn Llyfr 3, byddem yn edrych tuag at y dyfodol, a sut gall dealltwriaeth o’r effaith a’r newidiadau yma lywio’r dulliau gorau i ddatblygu cenhadaeth y rhaglen yn y dyfodol.

*Arweiniwyd y Prosiect Cyd-gynllunio, a chynhyrchwyd yr Adroddiad Terfynol, gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Fel prosiect cyfranogol, datblygol, roedd dysgu yn cael ei gynhyrchu a’i wreiddio wrth drosglwyddo’r prosiect, yn cael ei gyfleu trwy ystod amrywiol o allbynnau (mae archif o hyn wedi’i gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol yma). Nid yw’r Adroddiad Terfynol yma yn disodli’r hyn dysgwyd mewn mannau eraill, ond mae’n rhoi disgrifiad cyffredinol o sut y daeth holl elfennau amrywiol y prosiect at ei gilydd, a’r casgliadau ‘cenhadaeth eang’ gellir eu llunio o ganlyn hynny.*

# Allbynnau Allweddol y Rhaglen

**Mae'r data canlynol (tudalennau 3-6) yn deillio o'r dogfennau 'Adroddiad Cryno ar DPA – Ch3, 2021' a 'Rhestr a Dangosfwrdd Prosiectau (2018-2022)'.**


Mae Adfywio Cymru yn cyrraedd ei dargedau cyflawni yn gyson.


Yn y cyfnod Ebrill 2018 – Hydref 2021 mae Adfywio Cymru wedi:


- Cyfarfod dros 382 o Grwpiau Cymunedol (ffigwr – dde uchaf).
- Darparu cefnogaeth mentora cyfoed ffurfiol i dros 237 o Grwpiau Cymunedol (ffigwr –dde canol).
- Cael dros 1,550 o unigolion yn cymryd rhan yn ei ddigwyddiadau (ffigwr – dde gwaelod).
- Cyflawni 9 prosiect ar raddfa fawr.
- Cyflawni 79 o ddigwyddiadau rhwydweithio a rhannu sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Cyhoeddi dros 90 o flogiau, papurau, cylchlythyrau a darnau meddwl.
- Cymryd rhan mewn 29 o weithdai, digwyddiadau a fforymau allanol eraill.
- Cynyddu dilyniant cyfryngau cymdeithasol dros 163%.

Mae'r rhaglen ar y trywydd cywir (yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol) i gyrraedd neu ragori targedau 92% o'i dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd ar gyfer y cyfnod Ch2-2018 i Ch2-2022.

Fel mae'r ffigyrau ar y dde yn dangos (ble mae'r bariau aur yn dangos cychwyniad a chyfnod clo Covid 19 yn y DU) er bod rhywfaint o annhyfiant o ran cyflawni yn ystod y cyfnod yma, addasodd y rhaglen yn gyflym, heb unrhyw effaith hirdymor ar allbwn yn gyffredinol.



# Allbynnau Allweddol y Rhaglen


Mae Adfywio Cymru yn cefnogi Grwpiau Cymunedol ym mhob rhan o Gymru, ond nid yw dosbarthiad y gefnogaeth yma yn unffurf.

Yn y cyfnod Ebrill 2018 – Hydref 2021, roedd grwpiau cymunedol yn derbyn cefnogaeth Adfywio Cymru ym mhob sir yng Nghymru. Rhoddwyd y lefelau uchaf o gefnogaeth yn Rhondda Cynon Taf (cyfanswm o 44 grŵp wedi derbyn cefnogaeth), Powys (cyfanswm o 27 grŵp wedi derbyn cefnogaeth) a Chaerdydd (cyfanswm o 24 grŵp wedi derbyn cefnogaeth). Bwrdeistref Sirol Conwy oedd y sir a dderbyniodd y lefel isaf o gefnogaeth, gyda dim ond tri Grŵp Cymunedol yn derbyn cefnogaeth yn y cyfnod yma.


Nid yw dosbarthiad daearyddol y gefnogaeth rhoddwyd (ffigwr –dde gwaelod) yn cyfateb yn uniongyrchol i ddwysedd poblogaeth Cymru (ffigwr – chwith gwaelod). Derbyniodd Gogledd-ddwyrain a De-ddwyrain Cymru lai o gefnogaeth y pen o'r boblogaeth na'r cyfartaledd cenedlaethol, a Chanolbarth Cymru a Rhondda Cynon Taf, yn derbyn mwy na'r cyfartaledd, yn y cyfnod yma.

Y grwpiau mwyaf cyffredin i dderbyn cefnogaeth oedd canolfannau cymunedol, mentrau cymdeithasol, ysgolion a chynghorau tref a chymuned. Y themâu mwyaf cyffredin i benderfynu ar y math o gefnogaeth gan Adfywio Cymru oedd effeithlonrwydd ynni, garddio, ynni adnewyddadwy a llywodraethu.

Dosbarthiad cymorth Adfywio Cymru
(# grwpiau cefnogir fesul bwrdeistref sirol)




Dwysedd poblogaeth Cymru




# Allbynnau Allweddol y Rhaglen


Mae Adfywio Cymru yn helpu Grwpiau Cymunedol ledled Cymru i feithrin hyder, ac i gymryd camau tuag at weithredu ar newid hinsawdd.

Y prif nod yw helpu cymunedau yng Nghymru i leihau eu hôl troed carbon, addasu i effaith newid hinsawdd a byw yn fwy cynaliadwy, prif ddangosyddion perfformiad allweddol Adfywio Cymru yw’r nifer o grwpiau sydd yn mynegi eu hyder i weithredu, a’r nifer sydd yn gweithredu wedyn.

Fel y dangosir yn y ffigyrau isod, yn y cyfnod Ebrill 2018 – Hydref 2021, mae’r rhaglen yn cael mwy o effaith dros amser ar y ddau gyfrif. (Sylwer bod y ffigyrau'n nodi pryd adroddwyd yr effeithiau, nid pryd ddigwyddodd i reidrwydd).

Mae’r llinell werdd ym mhob ffigwr yn cynrychioli’r targed cyflawni ar gyfer pob dangosydd perfformiad allweddol (os ydych chi'n rhagdybio llwybr syth tuag at y targed cyffredinol). Mae’r llinell las yn cynrychioli’r niferoedd go iawn o ddata monitro Adfywio Cymru. Mae’r rhain yn dangos yn glir nad yw magu hyder, a gweld yr hyder yma yn newid i weithredu, yn llwybr syth: mae’n cymryd amser. Erbyn Ch4 – 2019, mae cynnydd sylweddol wedi bod ar y ddau gyfrif. Roedd annhyfiant mewn cynnydd yn ystod Covid-19 (ac/neu'r adrodd - wedi’i gynrychioli mewn aur) ond mae adferiad sydyn wedi bod o Ch4 – 2020 ymlaen. Ymddangosai fel bod y rhaglen yn ennill momentwm ac yn cael mwy o effaith wrth i amser symud ymlaen.



# Allbynnau Allweddol y Rhaglen

Mae’r adborth gan Grwpiau Cymunedol am eu profiad o weithio gydag Adfywio Cymru yn gyson ac yn gadarnhaol ran amlaf. Isod mae detholiad bach o sylwadau cynrychioladol:

**Rydym yn ddiolchagr iawn o’r gefnogaeth a dderbyniwyd gan Adfywio Cymru. Roedd cyfarfod cychwynnol â’r Cydlynydd o Adfywio Cymru yn fodd o ystyried a thrafod posibiliadau gwahanol a rydym yn gwerthfawrogi’r cyngor a dderbyniwyd wrth feddwl am y camau i’w cymryd a pha brosiect fyddai orau i ddatblygu.**

**Manwl iawn. Mae Peter yn deall ei bethau!**

**Mae cymorth Margaret Minhinnick wedi bod yn werthfawr iawn. Mae wedi rhoi cyngor a chefnogaeth ar bob lefel o'n sefydliad. Mae ei hysgogiad, gobaith a ffocws ar weithredu wedi bod yn amhrisiadwy at hyder y grŵp.**

**Heb y cymorth a dderbyniwyd ni fyddem wedi gallu cyflawni'r prosiect yma. Gobeithio byddem yn gallu dweud bod ein Neuadd Bentref yn gwneud gwahaniaeth yn y frwydr dros newid hinsawdd.**

**Mae'r Mentoriaid wedi helpu i symud ymlaen ar yr hyn mae’r bobl ifanc eisiau gweld yn digwydd yn y ganolfan. Dechreuom dyfu blodau, ffa, sibols ac ati mewn planwyr, rhai oedd wedi gordyfu pan gychwynnodd y prosiect.**

**Os ydw i’n derbyn gwybodaeth am bethau gallem gymryd rhan ynddo, rwyf yn gweithredu ar hynny, felly mae’n grêt cael rhywun yn rhannu syniadau gyda mi.**

**Heb gefnogaeth Suzanne ni fyddai’r cais am gyllid wedi’i gymeradwyo, ni fyddem wedi cynnal y gweithdy ar 2il Gorffennaf, nac wedi cael y cyfle i gyflawni prosiect trafnidiaeth garbon isel ar draws y rhanbarth.**

**Mae'r gefnogaeth a gawsom wedi bod yn wych. Mae Sam wedi cyfrannu ei sgiliau a'i wybodaeth ac wedi bod yn wych am weithio gyda'r staff a'r bobl ifanc. Roedd grŵp o bobl ifanc yma nad oedd yn awyddus i gymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgareddau, dim ond eisiau eistedd ar y ffôn bob tro. Ond llwyddodd y prosiect yma i ddenu eu sylw.**

**Mae’r gefnogaeth derbyniom gan Hugh a Delyth wedi agor ein llygaid.**

# Hanesion a Phrofiadau


Nid bwriad y Prosiect Cyd-gynllunio oedd herio’r allbynnau a chanlyniadau y manylir ar dudalennau 3-6 uchod, nac sydd wedi’u hadrodd yn adroddiadau cynnydd a gwerthusiadau annibynnol blaenorol Adfywio Cymru.

Y ffocws oedd datblygu dealltwriaeth well o gyd-destun, a’r broses o gyflawni canlyniadau, y ffactorau sydd yn galluogi a’r rhwystrau sydd yn atal hyn, ac adnabod yr ‘anhysbys anhysbys’: yr effaith yna sydd ddim yn dangos gyda’r broses monitro ac adrodd presennol.

Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau 1:1 gyda grŵp dethol o naw Mentor, Cydlynydd ac aelodau’r Grŵp Llywio sydd â dealltwriaeth dda o’r rhaglen. Rhannwyd sylwadau, adlewyrchiadau a straeon, gan gysylltu canlyniadau mesuredig gyda phrofiadau uniongyrchol. Roedd y cyfweliadau’n canolbwyntio ar y newidiadau roedd yr unigolion wedi’u gweld a’u profi ar dair lefel:

1. Newidiadau i'r Grwpiau Cymunedol roeddent wedi'u cefnogi.
2. Newidiadau iddyn nhw (i Fentoriaid a Chydlynwyr)
3. Newidiadau i Gymru a'r Byd

Fel y manylir yn y ffigwr isod, roedd y newidiadau yma yn disgyn i un o ddeg categori yn gyson, ar bob lefel. Roeddent yn cynnwys y newidiadau a ddaw o’r rhaglen Adfywio Cymru, a’r ffactorau allanol sydd wedi cael effaith ar gyflawni’r rhaglen. Yn gyffredinol, roedd y newidiadau adroddir yn rai cadarnhaol, ac yn ymwneud â sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth, diwylliant, ymddygiad a gweithredu, cysylltiadau cymunedol, cydlyniad, a gwydnwch. Mae dadansoddiad manwl o’r newidiadau yma ar Dudalennau 8 - 13.




# Newidiadau i Grwpiau Cymunedol

Wrth adlewyrchu ar y newidiadau sydd wedi digwydd yn yr amser mae Grwpiau Cymunedol wedi bod yn rhan o'r rhaglen Adfywio Cymru, roedd yr holl sylwadau a wnaed gan y rhai cyfwelwyd yn disgyn i mewn i un o bum categori, fel y crynhoir isod.

- **Diwylliant, ymddygiad a gweithredu:** Roedd y rhai cyfwelwyd wedi profi Grwpiau Cymunedol yn gweithredu, a hynny'n gynyddol, ond roedd rhaid cael diwylliant positif i alluogi hyn. Teimlant nad yw'n bosib gwahanu gweithredu a diwylliant wrth weithio i alluogi newid.
- **Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth:** Mae'r rhai cyfwelwyd wedi gweld y sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae grwpiau'n ceisio amrywio, gyda'r gred fod amcanion amgylcheddol lleol yn gysylltiedig â heriau economaidd a chymdeithasol ehangach, a'r agenda hinsawdd fyd-eang. Felly mae cyfeirio a gweithio mewn partneriaeth yn cynyddu yn ei bwysigrwydd i'r rhaglen.
- **Cysylltiadau cymunedol, cydlyniad a gwydnwch:** Mae'r rhai cyfwelwyd wedi gweld grwpiau'n dod yn agosach, yn cefnogi ei gilydd, ac yn fwy gwydn o ganlyniad hynny. Ond ymddangosai fel bod hyn yn dibynnu ar y diwylliant, y seilwaith a'r perthnasoedd mewn ardal benodol. Roedd y rhai cyfwelwyd hefyd yn teimlo y gallai newid o ran amrywiaeth a chynrychiolaeth ddigwydd yn gyflymach.
- **Boddhad, pwrpas a lles:** Mae'r rhai cyfwelwyd yn dweud bod y rhai sydd wedi derbyn cefnogaeth yn cael profiad lles positif yn ogystal ag effaith amgylchedd positif. Maent yn teimlo bod y ddau yn gynhenid gysylltiedig, a bod y broses o weithio gydag Adfywio Cymru'r un mor bwysig ag allbynnau'r gwaith yma.

Yn bumed ac yn olaf, y tu allan i ddylanwad Adfywio Cymru, nodwyd bod deddfwriaeth, cyllid ac adnoddau yn cael effaith fawr ar yr hyn y gallai grwpiau ei gyflawni, a'r hyn nad allent ei gyflawni, gan enwi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel rhywbeth sydd yn cefnogi ac yn ysgogi grwpiau yn uniongyrchol, yn enwedig grwpiau mwy sydd â chyfansoddiad mwy ffurfiol.

**Am beth roedd pobl yn siarad?**
**(# o sylwadau unigol mewn perthynas â phob thema)**



# Newidiadau i Grwpiau Cymunedol

Mae'r canlynol yn ddetholiad o gyfweliadau 1:1, yn ymwneud â’r newidiadau a gyflwynwyd i Grwpiau Cymunedol.

**Mae [cymorth cyfoed-i-gyfoed ar lawr gwlad] yn llwyddiannus yn Sir Benfro. Bellach mae dros 100 o grwpiau mewn poblogaeth o 200,000 - rydym yn ‘grŵp sir'.**

**Mae lefel yr effaith posib yn dibynnu ar ddiwylliant pwyllgorau’r grwpiau cymunedol rydym yn gweithio â nhw. Gall fod yn anodd newid y diwylliant yma.**

**Mae’r prosiect bwyd dros ben cefnogais wedi mynd o nerth i nerth. Nid oedd yn fodel cynaliadwy yn ariannol cynt. Bellach, rydyn ni'n ail-strwythuro’r fenter... mae'r prosiect wedi dysgu sut sefyll ar draed ei hun.**

**Mae’r prosiect bwyd dros ben cefnogais wedi mynd o nerth i nerth. Nid oedd yn fodel cynaliadwy yn ariannol cynt. Bellach, rydyn ni'n ail-strwythuro’r fenter... mae'r prosiect wedi dysgu sut sefyll ar draed ei hun.**

**Cefnogais raglen gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau. Roedd yn arfer bod yn le yr aiff pobl i dreulio amser. Bellach, maent yn canolbwyntio ar wneud rhywbeth positif, gydag effaith ar les meddwl, ac yn brosiect sydd yn cynyddu gwydnwch y gymuned. Mae gorgyffwrdd enfawr rhwng yr amgylchedd a’n hiechyd meddwl.**

**Roedd un grŵp, pobl yn eu 20au yn bennaf, yn awyddus i wneud rhywbeth... wrth sgwrsio daeth yn amlwg bod y grŵp yn rhan fawr o symudiadau fel Mae Bywydau Du o Bwys ac XR, ond nid oedd diddordeb mewn pethau fel plannu coed, neu dyfu bwyd. Gallai Adfywio Cymru fod wedi agor cyfleoedd sylweddol iddynt, ond roeddent yn teimlo bod yr atebion i’r heriau sy’n ein hwynebu yn fyd-eang, nid yn lleol.**

# Newidiadau i'r Rhwydwaith

Diolch i'r broses cyfoed-i-gyfoed, mae'r Rhwydwaith Adfywio Cymru yn rhan o'i gymuned. Felly, mae deall y newidiadau a brofir gan y Rhwydwaith yn rhan allweddol o ddeall y newidiadau a gyflwynir i gymunedau.

Wrth adlewyrchu ar y newidiadau  maent wedi profi eu hunain, roedd yr holl sylwadau a rannwyd gan y rhai cyfwelwyd yn disgyn i un o dri chategori, fel y crynhoir isod:


- **Cysylltiadau cymunedol, cydlyniad a gwytnwch:** Roedd y rhai cyfwelwyd yn teimlo mwy o gysylltiad â'i gilydd oherwydd eu rôl gydag Adfywio Cymru. Maent wedi tyfu eu rhwydweithiau, wedi dod yn rhan o'r 'ecosystem' datblygu cymunedol lleol ac yn teimlo mwy o rym ac wedi'u cyfarparu'n well i helpu eraill.

- **Boddhad, pwrpas a lles:** Mae gweithio gydag Adfywio Cymru wedi rhoi teimlad o bwrpas a boddhad i'r rhai cyfwelwyd. Mae'r rôl wedi bod yn heriol ac yn wobrwyol. Dywedodd rhai mai'r allwedd i gyflawniad oedd yr ymddiriedaeth a roddwyd iddynt, yn caniatáu iddynt 'fwrw ymlaen' – adeiladu ar eu cryfderau a darparu'r cymorth penderfynwyd sydd orau.

- **Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth:** Mae'r rôl wedi caniatáu iddynt ennill sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ac mae hyn yn cael ei fwydo'n ôl i'w sefydliadau cynnal, gwaith eu hunain a'u bywydau personol. Yn 'dysgu o siarad gyda phobl' ac yn gweld eu hymddygiad a'u gallu yn gwella o ganlyniad.

Gan adlewyrchu ar fodel dan arweiniad ymarferwyr Adfywio Cymru, roedd y rhai cyfwelwyd yn gweld pwysigrwydd cynnal carfan ffres, amrywiol a chynrychioliadol, ac roedd dull arweinir gan ymarferwyr Adfywio Cymru yn un i fod yn falch ohono, ac yn ganolog i'w allu i gyflawni effaith. Roedd yr holl newidiadau a rennir yn gadarnhaol.

**Am beth roedd pobl yn siarad?**
**(# o sylwadau unigol mewn perthynas â phob thema)**



# Newidiadau i'r Rhwydwaith

Mae'r canlynol yn ddetholiad o gyfweliadau 1:1, yn ymwneud â'r newidiadau a gyflwynwyd i'r Rhwydwaith.

**[Diolch i'r] newid o hyfforddiant i ymgysylltu â'r gymuned, rwyf bellach yn fwy o ran o'r ecosystem.**

**Adfywio Cymru yw'r rheswm rwyf wedi cysylltu ag unigolion.**

**Rwy'n ddiolchgar iawn i Adfywio Cymru. Dwi'n gwneud rhywbeth iddynt bob dydd, mae'n brofiad positif iawn i mi.**

**Mae creu cysylltiadau rhwng pobl yn gadarnhaol iawn i'r rhai sydd wedi gweithio mor galed ar lawr gwlad.**

**Rwyf bellach yn canolbwyntio llawer mwy ar eiriau a chyngor fy hun ac yn dadansoddi cyngor fy hun. Rwyf wedi dysgu cymaint o siarad gyda phobl eraill. Mae darganfod atebion i eraill yn helpu gyda gwaith ein hunain hefyd.**

**[Diolch i Adfywio Cymru] rwy'n ymwybodol o wneud mwy o ddewisiadau cynaliadwy ym mywyd fy hun (er enghraifft, lleihau defnydd o blastig fel defnyddiwr).**

**Rwyf angen bod yn rhan o rywbeth sydd yn symud pethau yn y cyfeiriad cywir er lles ac iechyd fy hun.**

**Rwy'n mwynhau gweithio gydag Adfywio Cymru. Mae angen profiad eang i ddeall beth i ganolbwyntio arno fel Mentor - mae'n beth anodd.**

**Wrth dalu, mae gan Fentoriaid ran a chymhelliant i ddarganfod pethau a rhannu hyn gyda phobl - peillio syniadau rhwng grwpiau.**


# Newidiadau i Gymru a'r Byd

Wrth gefnogi Grwpiau Cymunedol ledled Cymru i gyflawni effaith lleol, effaith ehangach ar raddfa, y mae Adfywio Cymru yn cyfrannu atynt, dylai hyn fod yn weladwy ar draws y wlad. Bydd newidiadau sydd yn digwydd ar raddfa genedlaethol a byd-eang, y tu allan i reolaeth Adfywio Cymru, yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y ffordd y gall gyflawni ei genhadaeth, a'r graddau y gall gwneud hynny. Bu'r rhai cyfwelwyd yn adlewyrchu ar y newidiadau gan gyffwrdd ar themâu eang, fel y crynhoir isod.

Ledled Cymru, mae'r rhai cyfwelwyd wedi profi mwy o deimlad o frys ymysg y Grwpiau Cymunedol cefnogir, ynghyd a'r awydd i weithredu, a'r gallu i wneud hynny.

Mae teimlad cynyddol bod pobl yn derbyn realiti newid hinsawdd, ac eisiau gwneud rhywbeth am y peth, a gwneud hynny'n sydyn. Mae'r potensial ar gyfer cydweithio rhwng grwpiau a gyda'r llywodraeth, yn cael ei dderbyn yn well nag erioed. Mae'r rhai cyfwelwyd i gyd wedi cydnabod bod Adfywio Cymru yn un o sawl cyfrannwr i'r newid diwylliant yma (a dim ond yn rhan o'r ateb), a bod cyflwyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, effaith ymgyrchoedd a symudiadau fel Extinction Rebellion, a rôl gynyddol y cyfryngau a dylanwadwyr wrth newid canfyddiadau'r cyhoedd ar newid hinsawdd, i gyd wedi chwarae rhan arwyddocaol.

Roedd y rhai cyfwelwyd hefyd yn teimlo bod newidiadau byd-eang yn cael effaith ar y ffordd y gall Adfywio Cymru gyflawni ei waith, gan greu heriau a chyfleoedd. Yng Nghymru, nododd y rhai cyfwelwyd bod mwy o broffil cyhoeddus i'r ddadl hinsawdd, a mwy o ymwybyddiaeth o'r materion. Mae yna farn ein bod wedi cyrraedd 'pwynt trawsnewid', yn symud o'r 'cam ymwybyddiaeth i'r cam gweithredu'. Ar y llaw arall, nodwyd bod grymoedd y farchnad (fel y gostyngiad ym mhris olew) yn rhwystro cynnydd, ar raddfa fyd-eang a lleol. Roedd teimlad eang bod Covid-19 wedi newid y ffordd mae pawb yn gweithio, ac wedi cyflymu symudiad tuag at arferion lleol, gyda ffyrdd newydd o ystyried ein harferion gwaith a ffordd o fyw, er rydym yn parhau i ddisgwyl i weld effaith hirdymor hyn.



# Newidiadau i Gymru a’r Byd

Mae'r canlynol yn ddetholiad o gyfweliadau 1:1, yn ymwneud â’r newidiadau a gyflwynwyd i Gymru a’r byd.

Mae'r amgylchedd wedi dod yn flaengar ac yn ganolog ym meddyliau pawb.

Mae Adfywio Cymru wedi annog pobl i siarad mewn ffyrdd penodol. Ar y cyd, mae Adfywio Cymru yn cyfrannu at dynnu sylw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau - mae'n creu cefnogaeth.

Mae Covid-19 wedi cyflymu pethau. Mae wedi rhoi ‘hwb i arferion lleol’ ac mae busnesau lleol wedi gorfod newid eu model busnes i gyflawni o adref.

Rydym yn meithrin y gallu i wrthsefyll ar raddfa Cymru. Mae llai o ddibyniaeth ar Lywodraeth y DU, a phethau eraill y tu hwnt i’n rheolaeth. Byddai’n grêt pe bai pethau tebyg yn rhywle arall.

Newid negyddol i'r Byd fu gostyngiad yng nghostau olew.

Mae'r potensial ar gyfer partneriaeth rhwng y llywodraeth a chymunedau yn well nawr.

Rydym wedi ennill y ddadl ar newid hinsawdd – mae pobl yn derbyn ei fod yn un o'r materion pwysicaf – nid allem hawlio mai ni sydd yn gyfrifol am hynny, ond rydym wedi bod yn rhan o’r ‘blaid uwch’ sydd wedi cefnogi’r trawsnewid yma.

Mae Cymru bellach yn cael ei hadnabod fel arweinydd ar faterion amgylcheddol. Mae llawer o bobl yn gwylio Cymru ar hyn o bryd.

Mae pobl ifanc bellach yn fwy ymwybodol ac yn addysgu pobl hŷn.

Mae'n teimlo fel ein bod mewn cyfnod o drawsnewid. Mae'r sgwrs am atgyweirio pridd, rhwydweithiau bwyd lleol ac ati wedi normaleiddio mewn ffordd na welais erioed mewn 25 mlynedd.

Dros amser, mae dull Adfywio Cymru yn dod yn fwy cyffredin - mae'n rhywbeth dylid fod yn falch ohono.

# Newidiadau Mwyaf Arwyddocaol

Un peth yw deall y newidiadau y mae rhaglen yn eu cyflwyno (a sut), ond peth arall yw deall arwyddocâd y newidiadau yma.

Pan ofynnwyd iddynt adlewyrchu ar y newidiadau mwyaf profwyd yn eu hamser gydag Adfywio Cymru, y drafodaeth fwyaf cyffredin ymysg y rhai cyfwelwyd oedd ‘cysylltiadau cymunedol, cydlyniad a gwytnwch’. Roedd sawl un o’r farn mai’r gallu i greu ‘cysylltedd llawr gwlad’, ac annog rhannu, cydweithio a gwytnwch cymunedol oedd hanfod cynnig gwerth y rhaglen, a’r elfen sylfaenol sydd yn galluogi effeithiau ehangach y rhaglen.

Pan ofynnwyd (yn y ‘gweithdy dewis stori’ – gweler Llyfr 1) i adlewyrchu ar ba newidiadau oedd fwyaf arwyddocaol iddynt o’r rhai rhannwyd gan y rhai cyfwelwyd, dewisodd Tîm Staff Canolog Adfywio Cymru'r sylw yma:

> **“Cefnogais raglen gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau. Roedd yn arfer bod yn le yr aiff pobl i dreulio amser. Bellach, maent yn canolbwyntio ar wneud rhywbeth positif, gydag effaith ar les meddwl, ac yn brosiect sydd yn cynyddu gwydnwch y gymuned. Mae gorgyffwrdd enfawr rhwng yr amgylchedd a’n hiechyd meddwl.”**

Iddyn nhw, roedd hyn yn tanlinellu gallu’r prosiect i newid bywydau pobl mewn ffordd ystyrlon, yn dangos sut y gall canlyniadau tymor byr droi yn effaith hirdymor, a’r ffordd y mae materion amgylcheddol yn gysylltiedig â phob un arall: sydd angen meddwl cydgysylltiedig a datrysiadau cyfannol.

Wrth adlewyrchu (trwy ‘Gymuned Ymholi’ – gweler Llyfr 1), ar yr holl newidiadau a gyflwynwyd gan raglen Adfywio Cymru, a’r gwersi sylweddol y gall y newidiadau hyn eu cynnig i ni ar gyfer y dyfodol, daeth aelodau Rhwydwaith Adfywio Cymru at ei gilydd, a dod i’r casgliadau yma:

1. Mae angen i newid digwydd yn gynt, ar bob lefel, ac ar bob graddfa.
2. Dim ond trwy gydweithio, partneriaeth a chyfranogiad i bob cyfeiriad y gall newid parhaol a chynaliadwy ddigwydd – gyda dinasyddion, busnesau, Grwpiau Cymunedol, llywodraeth leol a chenedlaethol i gyd yn chwarae eu rhan.
3. Mae dulliau sydd yn seiliedig ar asedau a naratif cadarnhaol yn hanfodol – yn dathlu llwyddiant ac adeiladu ar yr hyn sydd yn gweithio.
4. Mae angen casglu, cadarnhau a rhannu llawer iawn o wybodaeth a phrofiad ledled Cymru.
5. Mae’n rhaid manteisio ar y pŵer a'r cyfle sydd y bodoli eisoes.

# Newidiadau Mwyaf Arwyddocaol

Mae'r canlynol yn ddetholiad o sylwadau o'r gweithdy Dewis Stori a'r Gymuned Ymholi:

Mae'n anarferol i ni weithio gyda'r rhai sydd ddim yn meddwl ar raddfa leol. Rydym yn cymryd yn ganiataol bod y rhai rydym yn gweithio â nhw yn credu bod y gweithredu sydd yn cael ei wneud ar raddfa leol yn arwyddocaol.

Rydym yn edrych ar bethau yn fwy cyfannol, ac mae hyn yn allweddol.

Mae'n arwyddocaol bod yna fudiad fel XR nawr - y mae llawer o bobl, hen ac ifanc, yn cysylltu ag ef.

Mae Adfywio Cymru yn caniatáu i bobl gysylltu i mewn i'r ecosystem o newid ar lefel gymunedol.

Nid deall y materion yw'r unig beth sydd yn cyfyngu faint o weithredu sydd yn digwydd ar y materion yma, ond creu ffyrdd ymarferol i daclo'r materion o fewn y system bresennol.

Mae ymwybyddiaeth newid hinsawdd wedi newid ers 2012. Nid ydym yn cychwyn o'r un lefel a chynt.

Mae angen i ni fod yn cyd-gynhyrchu, Nid oes neb yn gallu gwneud hyn ar ben eu hunain – Llywodraeth, unigolion neu fel arall.

Mae ceisio creu newid diwylliannol mewn sefydliadau yn anodd iawn. Dim ond diddordeb mewn gweithgareddau tocenistaidd sydd yn aml.

Os byddai gan bobl synnwyr cyffredin o'u hunain fel rhan rhyngysylltiedig o'r ecosystemau rydym yn dibynnu arnynt, a fyddai gweithredu ar bob lefel yn dod i 'uniondeb ecolegol', yn ateb yr her newid hinsawdd?

Mae yna fwlch mawr rhwng derbyniad meddyliol (o newid hinsawdd) a pharodrwydd i wneud rhywbeth – mae'n rhaid i unrhyw raglen ddod â'r ddau beth yma at ei gilydd.

Yn y pen draw, mae'r grym i gyd yn dod o'r dinasyddion, ac os gallwn wneud rhywbeth i ryddhau pŵer dinasyddion, gall llywodraethau fwrw ymlaen â gwasanaethu diddordebau dinasyddion.

# Cwestiynau Arwyddocaol

Ers ei sefydlu yn 2012, mae Adfywio Cymru wedi cyrraedd ei dargedau'n gyson, ac wedi cyflawni cynnydd sylweddol a mesuradwy o ran ei ddangosyddion perfformiad allweddol a'r canlyniadau bwriedir. Ond, nid dyma oedd diben pennaf y Prosiect Cyd-gynllunio yma. Roedd yn ymwneud â sut gall adlewyrchu ar brofiadau'r gorffennol helpu i lywio gweithgareddau presennol a pharatoi ar gyfer heriau a chyfleoedd y dyfodol.

Ers cychwyn Adfywio Cymru mae Cymru, a'r byd, wedi newid yn aruthrol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi ei chyflwyno. Mae'r byd wedi dioddef pandemig. Mae'r argyfwng hinsawdd wedi cael mwy o sylw yn y cyfryngau, ac mae derbyniad y cyhoedd o'r argyfwng wedi cynyddu. Ym Mharis (COP21) a Glasgow (COP26) mae ymrwymiadau byd eang wedi eu gwneud i fynd i'r afael à newid hinsawdd. Mae effaith newid hinsawdd i'w gweld ar draws y blaned a phobl yn fwy parod i weithredu. Ac felly, ta waeth beth oedd yr effaith cyflawnwyd o gyflwyno'r rhaglen yn y gorffennol, mae angen datrysiadau newydd bellach, i ymateb i anghenion y byd newydd yma.

Gan adeiladu ar y cyfoeth o ffynonellau data, adlewyrchiadau helaeth a'r casgliadau eang a grynhoir yn y tudalennau uchod, ym mis Chwefror 2021, gwahoddwyd Cydlynwyr, Mentoriaid a rhanddeiliaid ehangach Adfywio Cymru i gymryd rhan mewn 'Fforwm Agored', a chyd-ddiffinio'r cwestiynau a oedd yn sail cyfnod o arbrofi ac archwilio gyda chymunedau ledled Cymru yn y misoedd dilynol, wrth i ffocws symud tuag at y dyfodol. Diffiniwyd pum cwestiwn:

1. **Sut gellir cynnwys y rhai sydd byth yn siarad am newid hinsawdd yn y sgwrs?**

2. **Sut gall cyfarfodydd anffurfiol dan arweiniad y gymuned wneud cyfraniad cadarnhaol i'n heriau amgylcheddol?**

3. **Sut gall yr 'Argyfwng Hinsawdd' droi'n gweithredu ystyrlon ar lefel lleol bach?'**

4. **Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol i Grwpiau Cymunedol gael mynediad i'r sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ei angen i weithredu?**

5. **Sut mae ysbrydoli pobl iau i gymryd rhan mewn gweithredu amgylcheddol ar lawr gwlad a arweinir gan y gymuned?**

Nid oedd bwriad i'r cwestiynau yma fod yn rhestr holl gynhwysfawr, ond fel cyfres ddilys o gwestiynau perthnasol ac amserol, lle gellid gosod nodau cyraeddadwy o'u cwmpas, a gwneud cynnydd ystyrlon o fewn amser ac adnoddau cyfyngedig. Roeddent yn sail i gam 'Ymestyn Allan' y Prosiect Cyd-gynllunio, lle mae'r canlyniadau i'w gweld yn Llyfr 3 yr adroddiad yma.

Wedi'i baratoi ar gyfer Adfywio Cymru gan
Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Rhwydwaith
Cydgynhyrchu
Cymru
Co-production
Network
for Wales




Llyfr 3 o 3

# Beth Nawr?

*Edrych tuag at y dyfodol*

Y Prosiect Cyd-gynllunio

**Adroddiad Terfynol**

Tachwedd 2021

# Cyflwyniad

Yn Llyfr 3 yr adroddiad yma, gofynnwn 'beth nawr' ac, gan adeiladu ar yr holl bethau dysgwyd yn y Prosiect Cyd-gynllunio, ystyried y ffyrdd gorau i symud cenhadaeth Adfywio Cymru yn ei flaen.

Mae'r dyfodol yn ansicr ac mae gweithio mewn cymhlethdod yn golygu na fydd unrhyw ddamcaniaethu, casglu a dadansoddi data yn gallu bwrw'r ffordd ymlaen gyda sicrwydd pendant.

Felly, wrth edrych tuag at y dyfodol, roedd y Prosiect Cyd-gynllunio yn canolbwyntio ar ddysgu wrth wneud: arbrofi, cymryd risg, a chael sgyrsiau newydd, gyda phobl newydd, mewn ffyrdd newydd. Roedd digwyddiadau ac arloesiadau yn tynnu Mentoriaid, Cydlynwyr, Tîm Staff Canolog a Grŵp Llywio Adfywio Cymru at ei gilydd, ynghyd â'r rhai maent wedi gweithio'n agos â nhw sawl gwaith yn flaenorol, hyd at y rhai sydd yn gwbl newydd i'r rhaglen. Roedd y profiad yma yn rhoi llawer iawn i'w bendroni: rhai pethau yn gweithio a rhai ddim, rhai pethau yn ddisgwyliedig ac eraill yn syndod llwyr. Beth bynnag ddigwyddodd, roedd mewnwelediadau newydd yn ymddangos, perthnasau yn cael eu creu, a chyfleoedd yn cael eu datgelu ar hyd y ffordd.

Roedd y broses yn un ailadroddus. Roedd y profiad o wneud pethau newydd, ac adlewyrchu arnynt, yn galluogi i ni greu cwestiynau newydd a gwell, a chynnig ffyrdd newydd i archwilio'r cwestiynau yma, gyda chylchred parhaol o 'cynllunio, gwneud, adolygu'.

Yn y tudalennau canlynol, rydym yn manylu:

- Y profiad o gyflwyno digwyddiadau'r Prosiect Cyd-gynllunio: beth wnaethom a beth ddysgwyd
- Mewnwelediadau, cwestiynau newydd a chyfleoedd newydd a ddeilliodd o'r profiadau yma.
- Gweledigaeth a dyheadau'r 10 mlynedd nesaf gan Rwydwaith Adfywio Cymru.
- Y camau nesaf sydd ei angen gall ein helpu i gyrraedd yno.

Yn Llyfr 1 yr Adroddiad Terfynol yma, manylir y broses 'Cyd-gynllunio' sydd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y 'Prosiect Cyd-gynllunio'. Yn Llyfr 2, asesir yr hyn datgelodd y prosiect am effaith blaenorol a phresennol Adfywio Cymru, gan osod yr adlewyrchiadau ar y dyfodol mewn cyd-destun.

*Arweiniwyd y Prosiect Cyd-gynllunio, a chynhyrchwyd yr Adroddiad Terfynol, gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Fel prosiect cyfranogol, datblygol, roedd dysgu yn cael ei gynhyrchu a'i wreiddio wrth drosglwyddo'r prosiect, yn cael ei gyfleu trwy ystod amrywiol o allbynnau (mae archif o hyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol yma). Nid yw'r Adroddiad Terfynol yma yn disodli'r hyn dysgwyd mewn mannau eraill, ond mae'n rhoi disgrifiad cyffredinol o sut y daeth holl elfennau amrywiol y prosiect at ei gilydd, a'r casgliadau 'cenhadaeth eang' gellir eu llunio o ganlyn hynny.*

# Ymestyn Allan

Gan adeiladu ar y Fforwm Agored ym mis Chwefror 2021, lle cyd-ddiffiniwyd pump 'cwestiwn arwyddocaol' (gweler Llyfr 2), cychwynnodd Cam 2 y Prosiect Cyd-gynllunio (‘Ymestyn Allan’) gyda chyfres o ‘sesiynau cynllunio digwyddiad’ ble roedd pob un o’r cwestiynau yma yn cael ei droi yn frîff ar gyfer digwyddiad archwiliol.

Roedd y sesiynau cynllunio digwyddiad yn agored i holl aelodau Tîm Staff Canolog Adfywio Cymru, Cydlynwyr, Mentoriaid, a Grwpiau Cymunedol oedd wedi derbyn cefnogaeth yn flaenorol. Roedd cyfanswm o 33 unigolyn wedi cymryd rhan yn y gyfres o bum sesiwn cynllunio.

Roedd sesiynau cynllunio yn ystyried y digwyddiadau dymunol yn ogystal ag ystyried y pethau ymarferol angenrheidiol i fedru cyflawni, gan gynnwys:

- **Pwy:** y cyfranogwyr a’r cynulleidfaoedd dymunol.
- **Beth:** y strwythur a’r cynnwys.
- **Pryd:** hyd, amser a dyddiad gorau i’w cyflawni.
- **Ble:** dull trosglwyddo, a lleoliad gorau.
- **Pam:** y bwriad canolog, a chynnig gwerth i’r gynulleidfa.

Roedd pedwar egwyddor yn arwain y drafodaeth ymhob sesiwn:

1. Dylid sicrhau amrywiaeth (o bwy, beth, pryd a pam) ar draws pob digwyddiad i optimeiddio’r potensial dysgu gallai gynhyrchu.
2. Bod angen i bob digwyddiad gael ‘cynnig gwerth hunan cynwysedig’ – hynny yw, bod rhaid i gynulleidfaoedd gael potensial i fuddio o gymryd rhan beth bynnag sydd a ddaw yn y dyfodol.
3. Bod gan bob digwyddiad graddfa ac uchelgais sydd yn caniatáu iddo gael ei gyflawni i safon uchel o fewn yr amser a’r adnoddau sydd ar gael.
4. Bod digwyddiadau, ble’n bosib, yn annog cyfranogwyr yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol i ‘faeddu eu dwylo’ a chysylltu gyda natur.

Yn dilyn y sesiynau cynllunio digwyddiad cafodd pum brîff digwyddiad ei greu ar y cyd, yn cael ei ddilyn gyda pharatoadau ar gyfer cyflawni pob digwyddiad. Roedd y paratoadau yn cael eu harwain gan dîm Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru, gyda Mentoriaid a Chydlynwyr Adfywio Cymru yn rhoi arweiniad, cyngor a chymorth gwirfoddol fel yr angen.

Roedd Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru hefyd yn cefnogi datblygiad cyfres podlediad Adfywio Cymru ar yr adeg yma, ac yn ystyried chweched digwyddiad de facto, o ganlyn ei aliniad cryf gydag amcanion cam ‘Ymestyn Allan’ y Prosiect Cyd-gynllunio. Cynhyrchwyd pump podlediad fel rhan o’r gwaith yma. Rydym yn manylu’r profiad o gyflwyno pob un o’r digwyddiadau yma ar dudalennau 4-9 yr adroddiad yma.

# Ymestyn Allan: Cymryd Drosodd

Roedd Cymryd Drosodd yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut gellir cynnwys y rhai sydd byth yn siarad am newid hinsawdd yn y sgwrs?'

### Yr hyn y gwnaethom

Nid yw nifer o'r rhai fydda'n buddio fwyaf o waith Adfywio Cymru yn deall eu bod angen hynny. Fel ymateb i hyn, roedd 'Cymryd Drosodd' yn archwilio sut byddai Adfywio Cymru yn edrych 'ar daith': gan fynd ag arbenigedd Mentoriaid a Chydlynwyr at y grwpiau sydd byth yn gofyn am gymorth, ond fydda'n buddio'n sylweddol ohono. Ar Fehefin 9fed 2021, i gyd-fynd a Diwrnod Amgylchedd y Byd, bu Adfywio Cymru yn gweithio gyda TownSq (corfforaeth-B sydd yn cefnogi datblygiad busnesau, pobl, llefydd a chymunedau ledled y DU) ac yn cymryd rhan mewn sgwrs ryngweithiol 'Sut gall perchnogion busnes bach helpu i achub y blaned' gyda rhai sydd yn gweithio ar liwt eu hunain ac entrepreneuriaid ar gychwyn

### Yr hyn dysgwyd

Roedd y sgwrs awr o hyd ar-lein yn un bywiog iawn, a datgelwyd:

- I'r rhai nad oedd wedi ymuno yn y sgwrs am yr amgylchedd o'r blaen, roedd y cyfle i gyfarfod ar 'dir diogel', ymysg cyfoedion, ac mewn lle roeddent yn gyfarwydd ag ef, yn allweddol i dorri arferion.
- Nid oedd pobl yn fyr o bethau i'w dweud, hyd yn oed os nad oeddent wedi dweud hynny gynt. Roedd un cyfranogwr wedi disgrifio presenoldeb Adfywio Cymru fel 'dilysu', yn darparu'r cyd-destun, ac yn rhoi caniatâd i siarad am faterion amgylcheddol.
- Roedd pobl sydd yn gweithio ar liwt eu hunain ac entrepreneuriaid ar gychwyn yn gallu gweld bod yr heriau a'r cyfleoedd maent yn ei wynebu o ran argyfwng hinsawdd yn uniongyrchol gysylltiedig â llawer o rai eraill: systemau gwleidyddol, diwylliannau sefydliadol, ardrethi busnes, cefnogaeth ariannol, cyfathrebu, addysg a llawer mwy yn y canol. Nid yw'n bosib datrys unrhyw broblem (a ni ellir cymryd unrhyw gyfle) ar ben ein hunain.
- Gall sgwrs gychwynnol sbarduno. Ni chafwyd datrysiadau cadarn o'r digwyddiad, ond roedd yn helpu'r cyfranogwyr i fagu mwy o hyder, archwilio syniadau, gofyn cwestiynau gwell, a chael awydd i barhau'r sgwrs.

Mewn arolwg ar ôl y digwyddiad, roedd 83% o'r ymatebwyr wedi dweud bod y profiad yn '5 allan o 5' gydag awydd cryf i gymryd rhan mewn digwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Gan adeiladu ar y Cymryd Drosodd, ar Dachwedd 2021, cynhaliodd TownSq ddigwyddiad 'Gwneud Cynaliadwy yn Fwy Cyraeddadwy' ledled y DU a rhoddwyd gwahoddiad i bob un o'r aelodau.

**Rwyf am gadw fy meddylfryd eco a rhannu'r neges i'r gymuned a'r bobl rwy'n gweithio â nhw wrth gymryd y camau bach, hawdd yna i fod yn fwy gwyrdd!**

*DYFYNIAD – Cyfranogwr Cymryd Drosodd*

# Ymestyn Allan: Gwib Fachu

Roedd Gwib Fachu yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut gall cyfarfodydd anffurfiol dan arweiniad y gymuned wneud cyfraniad cadarnhaol i'n heriau amgylcheddol?

### Yr hyn y gwnaethom

Roedd y digwyddiad, 'Pawb â'i gilydd yn hyn', wedi ei chynnal yn rhithiol dros amser cinio ar 16eg Mehefin 2021. Croesawyd pawb oedd â diddordeb yn yr amgylchedd i ymuno mewn 'sesiwn rhwydweithio gwib': yn symud rhwng grwpiau o bobl o'r un meddylfryd, a gadael i'r sgwrs ddatblygu'n naturiol.

Yn cael ei hyrwyddo drwy rwydweithiau presennol Adfywio Cymru, yn ogystal ag ambell wahoddiad arbennig i gynrychiolwyr rhaglenni sydd yn arwain ar gynlluniau tebyg mewn rhannau eraill o'r byd, roedd 18 o unigolion wedi cymryd rhan yn y digwyddiad, o Gymru ac mor bell ag Kenya a Nepal.

### Yr hyn dysgwyd

Yn dilyn y digwyddiad dywedodd 50% o'r rhai arolygwyd eu bod wedi gwneud 1 i 5 o gysylltiadau newydd wrth gymryd rhan, a dywedodd 33% eu bod wedi gwneud 5-10. Pan holwyd beth oedd agweddau mwyaf gwerthfawr y profiad, cafwyd yr ymatebion canlynol:

- 'Cyfarfod pobl newydd a gweithio gyda'n gilydd er budd y gymuned'
- 'Cyfarfod pobl na fyddwn i wedi cael cyfle i gyfarfod fel arall'
- 'Clywed yr hyn mae eraill yn ei wneud i helpu ein planed'

Pan ofynnwyd beth fyddai bod yn rhan o hyn yn eu hysgogi i wneud yn y dyfodol, roedd ymatebion yn cynnwys:

- Cysylltu gyda sefydliadau eraill sydd eisiau cynnal caffi trwsio.
- Cysylltu â'r cysylltiadau [rwyf wedi gwneud] a gweld os oes modd o weithio â'n gilydd.
- Creu prosiect o'r cysylltiadau [rwyf wedi gwneud] i greu byd gwell'.

Yn siarad gyda'u cymdogion lleol, neu unigolion o ochr arall y byd, roedd gan bobl lawer iawn yn gyffredin, a llawer i ddysgu gan ei gilydd, yn ogystal ag awydd i gadw cysylltiad. Roedd map 'Padlet' rhyngweithiol (fel gwelir yn y ffigwr dde), yn caniatáu i gyfranogwyr rannu manylion cyswllt, a pharhau'r sgwrs yn dilyn y digwyddiad.



# Ymestyn Allan: Sêl Gwerthu a Phrynu

Roedd y Sêl Gwerthu a Phrynu yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut gall yr Argyfwng Hinsawdd droi'n gweithredu ystyrlon ar lefel lleol bach?'

## Yr hyn y gwnaethom

Ar 23ain Mehefin cynhaliwyd digwyddiad ar ffurf Cylch Dwyochredd: ble mae grŵp o bobl yn dod at ei gilydd, yn gofyn am ddatrysiadau i'w heriau, a chynnig datrysiadau ble'n bosib i heriau'r bobl eraill. Nid proses sydd yn paru heriau a datrysiadau yn unig yw hwn, ond un sydd yn magu perthnasau ac ymrwymiad rhwng pawb sydd yn cymryd rhan.

Ymestynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr pob cyngor tref, plwyf a chymuned ledled y DU a oedd wedi gwneud 'Datganiadau Argyfwng Hinsawdd'. Yn cael ei gynnal ar-lein, tra bod y digwyddiad yn llawn gyda 20 wedi cofrestru, dim ond 7 unigolyn fynychodd yn y pen draw.

## Yr hyn dysgwyd

Er bod presenoldeb yn isel, roedd cyfranogwyr yn amrywio o Feiri Tref i Feiri i Swyddogion Datblygu Cymunedol o bob rhan o'r DU.

Prif ddarganfyddiad y digwyddiad oedd bod goresgyn heriau amgylcheddol, i rai sydd yn gweithio mewn Cynghorau Tref a Cymunedol, angen llawer mwy nag arbenigedd amgylcheddol. Roedd yr heriau penodol roedd yr unigolion yn chwilio am gymorth i'w goresgyn yn disgyn i 3 categori:

- **Gwaith Papur:** Roedd llywio biwrocratiaeth llywodraeth leol yn cael ei ddisgrifio gan un cyfranogwr 'fel nofio drwy uwd'. Roedd barn bod y gwaith papur sydd ei angen i gyflawni newidiadau sydd yn ymddangos yn eithaf syml yn rhwystr sylweddol i gynnydd.

- **Cyfathrebu:** Un her barhaol oedd sicrhau ymrwymiad cynghorwyr, dinasyddion a phartneriaid eraill i weithredu, ac un sydd angen mwy o gyfathrebu rheolaidd ac effeithiol.

- **Cydlynu**: Roedd barn mai'r datgysylltiad rhwng gweithredu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol oedd un o brif rwystrau cynnydd. Roedd awydd cryf am fwy o aliniad, a chyfleoedd i gysylltu.

Er nad oedd datrysiad i bob her i'w gael ymysg y grŵp bychan, roedd cyfranogwyr yn dweud bod 'deall nad oeddent eu hunain yn ysbrydoli' a bod y digwyddiad yn 'adeiladu sylfaen ar gyfer y dyfodol' a bod 'rhaid i sgyrsiau fel hyn barhau'.

# **Ymestyn Allan:** Y Dathliad

Roedd y Dathliad yn ymateb i'r cwestiwn 'Sut mae ysbrydoli pobl iau i gymryd rhan mewn gweithredu amgylcheddol ar lawr gwlad a arweinir gan y gymuned?'

### Yr hyn y gwnaethom

Nod y 'Dathliad' o'r cychwyn cyntaf oedd amlygu'r holl waith da sydd yn digwydd gan bobl ifanc ledled Cymru i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd, ac i greu cyfleoedd i'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau heddiw i gymryd rhan yn y digwyddiadau sydd yn cael eu harwain gan bobl ifanc, ar eu telerau nhw, gyda'r agenda yn cael ei osod ganddynt.

Darganfuwyd nad Adfywio Cymru oedd yr unig rai gyda'r uchelgais yma, ac fe drodd y Dathliad yn bartneriaeth, yn gweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru a GwE (gwasanaeth gwella ysgolion Gogledd Cymru). Aeth y bartneriaeth ati i gyflwyno TEDxGWE, gyda disgyblion o ysgolion ledled Gogledd Cymru yn dod at ei gilydd yn Theatr Clwyd ar Dachwedd 1af 2021 i gyflwyno'u gweledigaeth ar gyfer y dyfodol i gynulleidfa o wleidyddion, addysgwyr a dylanwadwyr lleol i'r rhanbarth – cyd-ddigwyddiad â COP26. Prif ran Adfywio yn y bartneriaeth oedd darparu pecynnau adnoddau i'r bobl ifanc, yn eu cyfarparu gyda phopeth roeddent ei angen i rannu eu neges, a chynnig cefnogaeth Mentora yn yr ysgolion i drosi gweledigaethau'r myfyrwyr yn gweithredu ystyrlon. Roedd dros 100 o bobl ifanc wedi cymryd rhan.

### Yr hyn dysgwyd

Roedd y digwyddiad yn gyfle i gael mewnwelediad i'r ffyrdd newydd ac annisgwyl gellir gwireddu nodau ac uchelgeisiau Adfywio Cymru, gyda:

- **Partneriaethau newydd:** Roedd y partneriaid yma yn rai newydd i Adfywio Cymru. Roedd gofyn cwestiwn newydd yn arwain at sgyrsiau a chyfleoedd gyda'r rhai oedd yn newydd i'r sefydliad, ond yn rhannu agenda cyffredin.
- **Cynnyrch newydd:** Nid yw datblygu 'Pecynnau Adnoddau' yn rhan o wasanaeth craidd Adfywio Cymru ond roedd yn ffordd syml o droi sgiliau a gwybodaeth eang y Rhwydwaith estynedig yn gynnyrch o werth mawr.

Yn y ddau beth uchod, roedd yn hanfodol nad oedd ymrwymiad tynn i un broses neu un ffordd o weithio. Roedd angen meddwl agored, a rhyddid i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar wneud yr hyn oedd ei angen i gyfrannu at amcanion a rennir, yn galluogi popeth a ddaw.

**Roedd y pecynnau adnoddau yn wych a bydd yn help mawr wrth symud ymlaen, ni ellir diolch digon, roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol ac yn un ysbrydoledig a dyrchafol, ac roedd y plant a'r bobl ifanc wrth eu boddau!**

*DYFYNIAD – Nina Ruddle, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.*

# **Ymestyn Allan:** Yr Hac

Roedd yr Hac yn ymateb i’r cwestiwn ‘Beth yw’r ffordd fwyaf effeithiol i Grwpiau Cymunedol gael mynediad i’r sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ei angen i weithredu?’

### Yr hyn y gwnaethom

Fel arfer mae hac yn cynnwys grŵp o unigolion gyda sgiliau a phrofiadau amrywiol yn dod at ei gilydd am gyfnod penodol i ddatblygu datrysiad i her sydd yn cael ei gosod. Roedd yr hac yma, gelwir yn ‘Yr Amgylchedd a Fi’ a chynhaliwyd ar 25ain Mehefin 2021, yn bartneriaeth rhwng Adfywio Cymru a Pobl yn Gyntaf Cwm Taf, sefydliad hunan-eiriolaeth i bobl ag anableddau dysgu sydd yn cael ei arwain gan yr aelodau. Yr her oedd creu cyfres o adnoddau hygyrch i’w defnyddio fel ffordd o gychwyn sgwrs wrth ddatblygu naratif y dyfodol gyda phobl sydd ag anabledd dysgu am sut i helpu brwydro newid hinsawdd a byw’n fwy cynaliadwy. Gan gynnwys Mentoriaid Adfywio Cymru, pobl broffesiynol creadigol a rhai oedd â phrofiad byw o anableddau dysgu, cafwyd dros bedair awr, gyda phedwar tîm i gyd-greu cyfres o adnoddau newydd.

### Yr hyn dysgwyd

Er bod hwn yn brofiad gwerthfawr a pleserus i bawb fu’n cymryd rhan, ac yn arddangosiad o ba mor sydyn gellir creu adnoddau newydd dan yr amgylchiadau cywir, roedd y digwyddiad wedi cael effaith ehangach annisgwyl ar waith Pobl yn Gyntaf. Yn dilyn yr hac:

- Mae Pobl yn Gyntaf Cwm Taf bellach yn defnyddio’r model hac i ddylanwadu ar faes arall o’u gwaith: gan gynnwys anghydraddoldeb iechyd, problemau trafnidiaeth, gwaith a chyflogaeth a thai.
- Bu darparwr byw â chymorth mewn cysylltiad â Pobl yn Gyntaf gan fod eu tenantiaid (oedd ag anabledd dysgu) yn cael eu bygwth a dirwy am nad oeddent yn gwahanu nac yn ailgylchu gwastraff yn gywir oherwydd diffyg dealltwriaeth ac arweiniad (Hawdd ei Ddeall) clir. Gan ddysgu o’r dulliau creadigol defnyddiwyd yn yr hac, cyd-gynhyrchwyd posteri Hawdd ei Ddeall gyda’r tenantiaid yn cynnwys lluniau yn helpu iddynt ailgylchu.
- Sefydlwyd grŵp mynediad i fesur hygyrchedd gofodau gwyrdd/awyr agored lleol ledled De Ddwyrain Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol i wella mynediad.
- Lansiodd Pobl yn Gyntaf rhaglen eu hunain, ‘Camu Allan’, i annog pobl sydd ag anabledd dysgu i gysylltu gyda gofodau gwyrdd/awyr agored lleol, gan ddefnyddio dulliau cyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu amrywiol. Mae’r rhaglen wedi llwyddo cael cyllid sylweddol i ymestyn ar draws De Ddwyrain Cymru.

Mae hyn yn atgof da o’r ‘effaith pelen eira’ gall ddod o ymyriad syml ond ystyrlon.

# Ymestyn Allan: Y Podlediad

Er nad yw'r gyfres podlediad 'Renew Wales in Conversation' yn ymateb uniongyrchol i gwestiwn, roedd yn gyfle naturiol i adeiladu ar awydd i greu podlediad gan y Rhwydwaith Adfywio Cymru, ac i gael sgyrsiau newydd, gyda phobl newydd, mewn ffordd newydd.

### Yr hyn y gwnaethom

Recordiwyd cyfres o bump podlediad rhwng mis Mai a Gorffennaf 2021. Y bwriad oedd cael sgyrsiau anffurfiol, naturiol rhwng unigolion angerddol yn siarad am y pethau oedd yn bwysig iddyn nhw. Gwelir dau fudd posib:

1. Cyflwyno gwaith Adfywio Cymru (a gwaith Grwpiau Cymunedol ledled Cymru) i gynulleidfaoedd newydd (o wrandawyr podlediad).
2. Tynnu pobl o'r un meddylfryd at ei gilydd, i rannu gwybodaeth, profiad, ac i greu partneriaethau newydd (ar gyfer cyfranwyr y podlediad).

Roedd pob podlediad yn cynnwys un Mentor Adfywio Cymru, un cynrychiolydd o Grŵp Cymunedol sydd wedi derbyn cefnogaeth Adfywio Cymru'n flaenorol, ac unigolyn sydd yn cynrychioli grŵp sydd yn hollol newydd i'r rhaglen – o unrhyw le yn y byd. Cafodd y gyfres ei rhyddhau (ar YouTube) yn haf 2021 a'i hyrwyddo ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Adfywio Cymru.

### Yr hyn dysgwyd

Mae'r sylwadau canlynol wedi dod o flog gan Swyddog Cyfathrebu Adfywio Cymru, Delyth Higgins, fu'n trefnu cynhyrchu'r gyfres:

**Mae'r awyrgylch wrth recordio wedi bod yn gyfeillgar ac yn hamddenol ac mae hyn wedi bod yn grêt, gan obeithio bod hyn yn cael ei gyfleu i'r gwrandawyr. Gobeithiwn hefyd bod sawl un wedi cael ei ysbrydoli i weithredu neu wedi dysgu rhywbeth, neu wedi cael eu hannog i feddwl yn ddyfnach am rywbeth.**


**Mae digon o ddysgu wedi bod yn digwydd y tu ôl i'r llenni hefyd – o ran y recordio a'r cynhyrchu ei hun, ond hefyd o ran gwella gwybodaeth a'r profiad o ddefnyddio amrywiaeth o becynnau graffeg i greu cynrychioliadau gweledol, celf clawr a chynnyrch hyrwyddol ar gyfer y podlediadau.**

**...rwyf yn mawr obeithio y gallwn barhau i recordio podlediadau newydd a chyffrous yn y dyfodol fel modd o ysbrydoli mwy o weithredu ar newid hinsawdd a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd a gwahanol.**

# Gwneud Synnwyr

Mae’r profiad o gyd-gynllunio, paratoi a chyflwyno pob digwyddiad wedi creu mewnwelediadau newydd, cwestiynau newydd a chyfleoedd newydd.

Cynhaliwyd cyfres o ‘sesiynau gwneud synnwyr’ wythnosol yn fis Awst 2021, lle’r roedd grŵp bach gwirfoddol o aelodau Rhwydwaith Adfywio Cymru yn dod at ei gilydd i ystyried effeithiau’r hyn roedd y digwyddiadau wedi’i ddatgelu, a beth ddylai ddigwydd nesaf. Dros y sesiynau, cafwyd 141 o sylwadau a chyfraniadau unigryw am y ffordd orau i symud ymlaen gyda chenhadaeth Adfywio Cymru. Roedd y rhain yn disgyn i un o chwe thema yn gyson, fel gwelir yn y ffigwr isod.




O ran ‘y byd o’n hamgylch’, roedd y cyfranogwyr gwneud synnwyr yn gweld heriau a chyfleoedd yn dod i’r amlwg, y tu allan i reolaeth uniongyrchol unrhyw raglen neu sefydliad penodol, a byddai’n rhaid i unrhyw raglen y dyfodol fod yn ymwybodol ohonynt.

- Roedd trafod yr heriau yn canolbwyntio ar y datgysylltiad parhaus rhwng dinasyddion, cymunedau a'r rhai sydd â grym yn y pen draw, a chymhlethdod parhaus (a chynyddol) yr argyfwng hinsawdd.

- Roedd trafodaeth ar gyfleoedd yn canolbwyntio ar yr ymwybyddiaeth gynyddol o'r argyfwng hinsawdd, a pharodrwydd i weithredu, yng Nghymru a'r byd.

Roedd pob trafodaeth arall yn ymwneud â’r camau gweithredu sydd o dan reolaeth uniongyrchol rhaglen neu sefydliad ac maent yn cael eu crynhoi ar dudalennau 11-15 isod.

# **Thema 1:** Marchnata ac Ymgysylltu

Mae'n rhaid i unrhyw raglen sydd yn symud cenhadaeth Adfywio Cymru yn ei flaen i'r dyfodol angen gallu cyfathrebu'n glir ei werth, dathlu a hyrwyddo ei lwyddiant, a chysylltu gyda chymunedau a sefydliadau ar bob lefel, yn cynrychioli amrywiaeth eang y wlad.

## Datblygu cynulleidfa

Wrth gydnabod yr ystod eang o sefydliadau y mae Adfywio Cymru wedi'u cefnogi yn y degawd diwethaf, roedd y cyfranogwyr gwneud synnwyr yn teimlo bod angen gwneud mwy yn y dyfodol i gyrraedd y 'wynebau anarferol'. Roedd barn bod cyfle sylweddol i ymgysylltu gyda phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg a rhai nad fydda'n nodi eu bod yn gallu gweithredu i frwydro newid hinsawdd, gan weithio ar draws sectorau a dod yn fwy cynrychioladol o amrywiaeth Cymru. Nodwyd pwysigrwydd bod yn rhagweithiol, gan ymestyn allan i greu cynulleidfaoedd newydd.

## Canfyddiadau cyhoeddus

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo fel nad oedd y llinell rhwng bod yn fentor, cyfoed, arbenigwr, hwylusydd neu hyfforddwyr busnes bellach yn glir – gyda gwerth yn cael ei ychwanegu wrth ail-sefydlu hanfod y dull.

## Brand ac Iaith

Teimlai'r cyfranogwyr fod angen negeseuon symlach i gael cyrraedd ehangach, a bod angen mwy o hyder wrth ddathlu cynnydd a llwyddiant.

> **Nid oes digon wedi'i wneud i gysylltu gyda'r wynebau anarferol.**

> **Mae mwy o sgôp i wneud pethau yn y Gymraeg.**

> **Er y gellir ein gweld fel arbenigwyr, rydym yn agosach i Fentoriaid a hyfforddwyr busnes yn ymarferol.**

> **Dylid gwneud mwy i hyrwyddo ein hunain a dathlu ein llwyddiant.**

**Am beth roedd pobl yn siarad?**
**(# o sylwadau unigol mewn perthynas â phob thema)**



# **Thema 2:** Cenhadaeth a Gwerthoedd

Mae rhaid i unrhyw raglen sydd yn symud cenhadaeth Adfywio Cymru yn ei flaen i'r dyfodol ddiffinio'n glir eu gweledigaeth, cenhadaeth a chynnig gwerth, sydd yn gymesurol ag anghenion newidiol y blaned, ac yn ymatebol i anghenion esblygol cymunedau a sefydliadau.

## Cynnig gwerth

Er bod gan grwpiau cymunedol a sefydliadau gwahanol lwybrau gwahanol i gysylltu gyda rhaglen fel Adfywio Cymru, roedd y cyfranogwyr gwneud synnwyr yn teimlo bod ei gynnig gwerth yn gysylltiedig â'i broses yn sylfaenol – yn ymwneud â grymuso, cyd-gynhyrchu, a 'chreu rhywbeth eich hun' – yn galluogi atebion cynaliadwy hirdymor.

## Gwerthoedd

Dywedodd y cyfranogwyr fod 'cael eich arwain gan y gymuned' yn gorfod bod yn ganolog i unrhyw raglen y dyfodol, a nodwyd yr aliniad cryf rhwng gwerthoedd Adfywio Cymru a'r '5 ffordd o weithio' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r posibiliadau y mae hyn yn ei gyflwyno ar gyfer y dyfodol.

## Pwrpas

Wrth i'r sefyllfa newid hinsawdd ddod yn fwyfwy dwys, teimlai'r cyfranogwyr bod angen i unrhyw raglen sydd yn bodoli i fynd i'r afael arno ymddwyn yn briodol gyda synnwyr addas o'r brys yma.

> **Os ydych chi am alw hwn yn argyfwng hinsawdd, yna mae angen ei drin fel argyfwng.**


> **Mae grymuso yn ganolog i'n gwaith.**

> **Arbed arian oedd y prif yrrwr unwaith... bellach arbed yr amgylchedd yw e.**

> **Mae'r gwerth yn y profiad o 'greu peth eich hun'.**

> **Mae'n ymwneud â chrychdonnau ar lefel gymunedol.**

**Am beth roedd pobl yn siarad?**
**(# o sylwadau unigol mewn perthynas â phob thema)**



# **Theme 3:** Monitoring and Evaluation

Mae rhaid i unrhyw raglen sydd yn symud cenhadaeth Adfywio Cymru yn ei flaen i'r dyfodol, osod nodau a mesur eu cynnydd tuag atynt, mewn ffordd sydd yn adlewyrchu naws galluogi newid cynaliadwy. Mae'n rhaid iddo nodi'r 'anhysbys anhysbys' ac annog diwylliant o ddysgu ac arloesi.

### Gwerthusiad

Roedd cyfranogwyr gwneud synnwyr yn teimlo bod rhaid i ddulliau gwerthuso'r dyfodol nodi canlyniadau gwaith annisgwyl yn ogystal â'r rhai a fwriedir, gan ganolbwyntio ar effeithiau hirdymor ac anuniongyrchol ymyriadau (h.y. beth sydd yn digwydd nesaf pan fydd cymorth uniongyrchol grŵp yn dod i ben), a gwneud mwy i ddatgelu effaith 'sut mae pethau'n cael eu gwneud' yn hytrach nag 'beth sy'n cael ei wneud' yn unig.

### Monitro

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod rhaid trin y prif ddangosyddion perfformiad yn ofalus, gan nodi 'pan fydd rhywbeth yn dod yn ddangosydd mae'n gallu stopio bod yn fesur dibynadwy'. Roedd teimlad bod angen i fesuriadau monitro annog y mathau cywir o ddulliau a phrofiadau yn ogystal ag asesu canlyniadau'r dulliau a'r profiadau yma.

### Meini prawf llwyddiant

Roedd cyfranogwyr o'r farn nad ellir mesur llwyddiant rhaglen gyda rhifau yn unig. Roedd angen mwy o ffydd bod 'y pethau cywir yn digwydd i'r bobl sydd yn digwydd bod yno'.


**Mae'n rhaid rhoi gwerth nid yn unig i ganlyniadau'r sgyrsiau, ond i'r sgyrsiau eu hunain.**

**Mae angen newid y ffocws yn ôl ar ganlyniadau dros allbynnau.**

**Mae effaith ein gwaith yn hirdymor, ac mae angen dull o fonitro a gwerthuso sydd yn gallu adlewyrchu hyn.**

**Mae angen i ni addasu ein targedau i gyrraedd ein heffeithiau – nid y ffordd arall!**

**Am beth roedd pobl yn siarad?**
**(# o sylwadau unigol mewn perthynas â phob thema)**



# **Thema 4:** Prosesau a Llywodraethu

Mae rhaid i unrhyw raglen sydd yn symud cenhadaeth Adfywio Cymru yn ei flaen i'r dyfodol, gael strwythurau llywodraethu sydd yn addas ar gyfer gweithio mewn cymhlethdod, prosesau sydd yn hyblyg ac yn gallu ymateb i heriau a chyfleoedd a ddaw, a chael ei arwain gan ddinasyddion yn y pen draw os yw am barhau i fod yn wir lais cymunedau.

## Partneriaid

Roedd cyfranogwyr gwneud synnwyr yn teimlo bod gweithio mewn partneriaeth yn elfen hanfodol o unrhyw raglen y dyfodol. I gyflawni dull cyfannol a newid parhaol mae'n rhaid i bartneriaethau gynnwys pob sector, yn amrywio o sefydliadau ar lawr gwald i Lywodraethau.

## Systemau

Tra bod cydnabyddiaeth bod model Adfywio Cymru wedi bod yn effeithiol, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod rhaglenni'r dyfodol angen bod yn fwy hyblyg er mwyn bod yn fwy ymatebol i anghenion newidiol cymunedau, ac anghenion sydd yn dod i'r amlwg, yn enwedig gyda thyfiant cynulleidfa bosibl y fath raglen.

## Strwythurau

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y theori cymhlethdod yn darparu fframwaith ar gyfer ffordd newydd o weithio. Y teimlad oedd bod gweithio yn effeithiol mewn cymhlethdod yn gofyn am fwy nag strwythurau newydd, a bod angen diwylliant newydd, sydd yn croesawu newid ac ansicrwydd.

> **Mae'n heriol gwneud unrhyw beth mewn ffordd sydd yn cael ei arwain gan ddinasyddion os oes pwysau amser.**

> **Mae angen newid diwylliant tuag at fodel mwy addas ar gyfer gweithio mewn cymhlethdod.**

> **Mae pwysigrwydd mewn partneriaeth a meddwl yn gyfannol.**

> **Rydym angen mwy o hyblygrwydd.**

> **Mae model Adfywio Cymru yn un da, mae wedi bod yn effeithiol.**

**Am beth roedd pobl yn siarad?**
**(# o sylwadau unigol mewn perthynas â phob thema)**



# **Thema 5:** Cynnyrch a Gwasanaethau

Mae rhaid i unrhyw raglen sydd yn symud cenhadaeth Adfywio Cymru yn ei flaen i'r dyfodol, arloesi gyda'i gynnyrch, gwasanaethau a chefnogaeth, gan barhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol, yn tyfu ei ddarpar gynulleidfa a defnyddio'r asedau sydd wedi eu casglu dros y degawd diwethaf.

### Cynnyrch a gwasanaethau newydd

Roedd y cyfranogwyr gwneud synnwyr yn gweld nifer enfawr o gyfleoedd i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd, i gyfarfod anghenion newydd a newidiol cymunedau. Roedd dymuniad am fwy o hyblygrwydd a symud o'r 'broses llinol' ar y cyfan. Nodwyd bod potensial y tu hwnt i ffiniau Cymru yn y dyfodol, gyda dulliau sydd wedi'u meithrin yn y wlad yn rhoi esiampl i eraill.

### Cynnyrch a gwasanaethau presennol

Nodwyd bod cynnyrch a gwasanaethau presennol yn gweithio o hyd ac yn dal i gael effaith gadarnhaol, yn enwedig pan fydd digon o 'amser a gofod' i grwpiau gael datblygu syniadau, dysgu a phrosesu gwybodaeth. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod Mentoriaid yn darparu amrywiaeth ehangach o gymorth gyda chynnyrch a gwasanaethau presennol nag yr oeddent o'r blaen.

### Gwybodaeth gronedig

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod gwerth cynhenid i'r rhwydweithiau eang a'r wybodaeth gyfoethog sydd gan Adfywio Cymru – rhywbeth sydd ddim yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol wrth gyflwyno'r rhaglen yn bresennol.

**Mae ein Mentoriaid yn darparu llawer mwy o gymorth nag yr oeddem cynt.**

**Mae angen rhwydweithiau cryf o gyd-gefnogaeth.**

**Mae gennym gronfa ddata enfawr o wybodaeth bellach.**

**Mae trosfeddiannau yn rhad, yn hawdd ac yn cael effaith – gallem wneud mwy ohono.**

**Mae'r rhaglen yn dangos ei fuddion bellach, ac mae mwy o alw amdano nag erioed!**

**Am beth roedd pobl yn siarad?**
**(# o sylwadau unigol mewn perthynas â phob thema)**



# Gweledigaeth 10 Mlynedd

Daeth 22 o Gydlynwyr Adfywio Cymru, aelodau'r Grŵp Llywio ac aelodau'r Tîm Canolog at ei gilydd ar gyfer Cyfarfod Tîm ar 23ain Medi. Cyflwynwyd y tîm gyda chanlyniadau'r sesiynau 'gwneud synnwyr' manylir yn y tudalennau uchod i'w trafod. Aethant ati i ystyried "os byddai pawb yn ailgynnull mewn 10 mlynedd yna beth hoffant ei gweld?' Dyma rhai o'r sylwadau cafwyd:

**Economïau lleol cryfach.**

**Mwy o gydlynu rhwng cymunedau.**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dod yn ofynnol ar bob sefydliad, ar draws pob sector, ac ethos y ddeddf yn cael ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth y DU a ledled y byd.**

**Gwaith yn digwydd mewn partneriaeth, ac ar raddfa, i newid systemau.**

**Datrysiadau yn cael eu gweithredu ar y llawr (ynni adnewyddadwy, er enghraifft) gyda'r budd cymunedol mwyaf bosib.**

**Bod y sefyllfa argyfwng hinsawdd yn llai o argyfwng nag ydyw heddiw.**

**Sianeli cyfathrebu newydd yn cael eu creu ar y cyd, gan ganiatáu i gymunedau weithredu mewn cydweithrediad agos â'r rhai sydd mewn grym.**

**Bod y broses o drosglwyddo asedau wedi symleiddio, a rhwystrau i berchnogaeth gymunedol wedi diflannu.**

**Os yw Adfywio Cymru yn dal i fodoli mewn 10 mlynedd yna nid ydym wedi cyflawni'r hyn sydd angen ei gyflawni.**

**Pobl yn credu bod posib taclo newid hinsawdd yn llwyddiannus.**

**Pawb, ar bob lefel, yn trin yr argyfwng hinsawdd fel argyfwng.**

*Yn yr uchod, nodwyd yr her o gynllunio '6 mis ymlaen hyd yn oed, cyn sôn am 10 mlynedd', ynghyd a'r effaith bosibl mae COP26 (cynhaliwyd y sgwrs yma cyn y digwyddiad) yn ei gael ar newid safbwyntiau ac agendâu.*

# Camau Nesaf

Adroddiad Terfynol yw hwn, nid gair terfynol.

Fel dogfennir a chrynhoir yn nhri llyfr yr adroddiad yma, casglwyd mewnwelediadau, gwnaed casgliadau, ac mae'r dysgu wedi'i wreiddio, yn ystod cyfnod llawn y Prosiect Cyd-gynllunio. Roedd hyn yn amrywio o adnabod y manylion bach sydd yn gallu gwella gwasanaethau a gweithgareddau penodol, i sefydlu gweledigaeth a meysydd ffocws thematig ar gyfer unrhyw raglen sydd yn symud cenhadaeth Adfywio Cymru yn ei flaen yn y degawd sydd i ddod.

Yn gweithio mewn cymhlethdod, mae angen bod yn ofalus wrth ymdrin ag unrhyw gasgliadau am y dyfodol sydd yn cael eu cyflwyno fel absoliwt. Mae'r byd yma yn parhau i newid, a bydd angen i gynlluniau a gweithrediadau newid yn unol â hynny. Ond mae'n hanfodol bod y fath gasgliadau yn cael eu defnyddio fel sbardun, i fynd gyda'r momentwm yma, ac nad oes terfyn ar ddysgu a datblygu. Mae hyn yn digwydd eisoes. Yn dilyn cwblhau'r Prosiect Cynllunio Gwasanaeth, mae 'Mentrau Arloesi' yn parhau i annog archwiliad i ffyrdd newydd o wneud pethau, ac mae 'sesiynau gwneud synnwyr' yn parhau i gasglu'r dysgu a ddaw drwy'r ymdrechion yma.

Gyda rhaglen bresennol Adfywio Cymru yn dod i ben yn Haf 2022, mae'n rhaid rhoi sylw ar unwaith i gwblhau'r rhaglen yn y modd adeiladol gorau bosib, a sicrhau bod proses rhwydd o drosglwyddo i unrhyw raglen newydd sydd yn parhau gyda chenhadaeth Adfywio Cymru, a'i fod yn canolbwyntio ar unrhyw anghenion a chyfleoedd sydd yn dod i'r amlwg. Gan adeiladu ar bopeth sydd wedi ei ddysgu a'i archwilio yn y Prosiect Cyd-gynllunio, mae'n rhaid ystyried y canlynol gan Adfywio Cymru:

- **Statws:** Sut byddant yn rheoli ac yn ariannu unrhyw raglenni'r dyfodol? Sut bydd ei lywodraethu'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cynaliadwyedd, gwydnwch ac ystwythder?
- **Cynnyrch, gwasanaethau a gweithgareddau**: Beth sydd yn rhaid i unrhyw raglen y dyfodol ei gyflawni, ac i bwy, i barhau i fod yn ddatrysiad perthnasol a dymunol i'r heriau sydd yn wynebu Cymru (a'r byd) heddiw?
- **Gweledigaeth, cenhadaeth a phwrpas:** Sut bydd unrhyw raglen y dyfodol yn sicrhau ei fod yn cael ei yrru gan bwrpas o hyd, fel grym amlwg ar gyfer lles yng Nghymru a thu hwnt, gyda brys cymesur â difrifoldeb yr argyfwng hinsawdd?

Nid oes atebion cywir nac anghywir i'r cwestiynau uchod. Yn unol â gwerthoedd a dulliau'r Prosiect Cyd-gynllunio, argymhellir bod cwestiynau o'r fath yn cael eu harchwilio gyda deialog barhaus, agored ac archwiliadol, ble mae penderfyniadau yn cael eu gwneud gyda phawb sydd yn cael eu heffeithio ganddynt, a nhw hefyd sydd yn berchen ar y penderfyniadau yma.

**DIWEDD YR ADRODDIAD**

**Wedi'i baratoi ar gyfer Adfywio Cymru gan**
**Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru**

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
Co-production Network for Wales

# List of Appendices

The following appendices are provided as a Co-Design Project Archive:

**1. Virtual Project Space**
- 1.1. Padlet – Co-Design Project (Main)
- 1.2. Padlet – Co-Design Project (Event Planning)

**2. Interview Summaries**
- 2.1. Story Selection Analysis

**3. Event Summaries (Story Selection and Community of Enquiry)**
- 3.1. Story Selection Workshop (audio)
- 3.2. Story Selection Workshop (video)
- 3.3. Story Selection Workshop (story snippets)
- 3.4. Community of Enquiry (audio)
- 3.5. Community of Enquiry (video)
- 3.6. Community of Enquiry (chat transcript)

**4. Progress Report**
- 4.1. Renew Wales – The Co-Design Project Phase 1 – Briefing Paper

**5. Pilot Event Briefs**
- 5.1. Question Selection Poll
- 5.2. The Co-Design Project - Phase 2 – Question Selection
- 5.3. The Co-Design Project – Phase 2 – Event Briefs
- 5.4. Event Planning Session Transcripts

**6. Podcasts**
- 6.1. Renew Wales in Conversation – Biodiversity and Green Spaces
- 6.2. Renew Wales in Conversation – Transport
- 6.3. Renew Wales in Conversation – Waste and the Circular Economy
- 6.4. Renew Wales in Conversation – Creative Arts and Climate Change
- 6.5. Renew Wales in Conversation – Creu Lleoedd

**7. Pilot Event Materials**
- **7.1. Takeover**
  - 7.1.1. Takeover (chat)
  - 7.1.2. Takeover (TownSq In House Evaluation)
- **7.2. Speed Date**
  - 7.2.1. Speed Date (chat)
  - 7.2.2. Speed Date (survey responses)
- **7.3. Bring and Buy**
  - 7.3.1. Bring and Buy (chat)
- **7.4. Hack**
  - 7.4.1. Hack Products (Posters and Videos)
    - 7.4.1.1. Josh
    - 7.4.1.2. Kirsty
    - 7.4.1.3. Simian
    - 7.4.1.4. Poster 1
    - 7.4.1.5. Poster 2

# List of Appendices

*Continued …*


7.4.2. People First Evaluation (In House)
7.4.2.1. People First Evaluation Event Part 1 (audio)
7.4.2.2. People First Evaluation Event Part 2 (audio)
7.4.2.3. People First Evaluation Event (chat)
7.4.2.4. People First Case Study
7.5. Celebration
7.5.1. TEDx Resource Pack – CYM
7.5.2. TEDx Resource Pack – ENG
7.5.3. TEDxGwE Case Study with Links
**8. Pilot Event Blogs**
8.1. Renew Wales Blog – Takeover
8.2. Renew Wales Blog – Speed Date
8.3. Renew Wales Blog – Bring and Buy
8.4. Renew Wales Blog – Hackathon
8.5. Renew Wales Blog - Celebration
**9. Sense Making Session / Team Gathering Summaries**
9.1. Sense Making Analysis
9.2. Sense Making Session Notes
9.3. Team Gathering Slides
9.4. Team Gathering Chat
**10. Final Report**
10.1. Final Report Data
10.1.1. 2018-2022 Summary Report on KPIs Q3 2021.
10.1.2. Map (Final Report Source Data)
10.1.3. RW Analysis (Final Report Source Data)
10.1.4. Project List and Dashboard 2018-2022
10.2. Co-Design Project – Final Report – Editable – Issue2
10.3: Co-Design Project – Summary Slide Deck – Issue1
10.4: Co-Design Project – An Agenda for the Future – Issue 1